# Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

Mr Richard Parry Jones, MA.
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG) | STANDING ADVISORY COUNCIL ON RELIGIOUS EDUCATION (SACRE) |
| DYDD MAWRTH, 18 CHWEFROR 2014 am 2.00 o'r gloch | TUESDAY, 18 FEBRUARY, 2014 at 2:00 p.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

**Cynghorwyr / Councillors:-**

W.T.Hughes, Gwilym O.Jones, R.Llewelyn Jones, Alun Mummery, Peter Rogers, Dylan Rees *(Cadeirydd/Chair)*

**Yr Enwadau Crefyddol/Religious Denominations**

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru/The Church in Wales), Gwag/Vacant (Yr Eglwys Babyddol/The Catholic Church), Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd/The Methodist Church), Mr Rheinallt Thomas (Yr Eglwys Bresbyteraidd/Presbyterian Church of Wales) *(Is-Gadeirydd/Vice-Chair),* Mrs Catherine Jones (Undeb y Bedyddwyr/The Baptist Union of Wales), Yr Athro Euros Wyn Jones (Undeb yr Annibynwyr Cymraeg/Union of Welsh Independents)

**Athrawon/Teachers**

Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones), Alison Jones (Ysgol Parch.Thomas Ellis), Bethan Ll.Jones (Ysgol y Graig), Gwag/Vacant (Penaethiaid Uwchradd/Secondary Headteachers)

**Aelodau Cyfetholedig/Co-Opted Members**

Mrs Helen Roberts (Prifysgol Bangor University)
Y Parch./Rev. Elwyn Jones (Cyngor yr Ysgolion Sul/Sunday Schools Council)

# R H A G L E N

1 **CYFLWYNIAD**

Derbyn cyflwyniad gan Ysgol Santes Fair.

2 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

3 **COFNODION CYFARFOD 26 TACHWEDD, 2013** (Tudalennau 1 - 6)

Bydd cofnodion cyfarfod blaenorol y CYSAG a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2013 yn cael eu cyflwyno i'w cadarnhau.

4 **ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN 2012/13** (Tudalennau 7 - 28)

Trafod ymateb yr Awdurdod i'r argymhellion yn yr adroddiad.

5 **SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL** (Tudalennau 29 - 40)

- Ystyried adroddiadau hunan-arfarnu Ysgol y Fali ac Ysgol Pentraeth

- Ystyried y prif negeseuon o adroddiadau arolwg Estyn mewn perthynas ag Ysgol Ffrwd Win, Ysgol Caergeiliog ac Ysgol Santes Fair.

  *(Adroddiad y Swyddog Addysg ynghlwm)*

6 **Y FFRAMWAITH LLYTHRENNEDD A RHIFEDD GENEDLAETHOL AC ADOLYGIAD O GWRICWLWM CENEDLAETHOL CYMRU**

Derbyn cyflwyniad gan Miss Bethan James, AS GwE.

7 **CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU** (Tudalennau 41 - 46)

- Cyflwyno cofnodion drafft cyfarfod y Gymdeithas a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10 Hydref, 2013.

- Ystyried enwebiadau i'r Pwyllgor Gwaith *(Gohebiaeth ynghlwm)*

8 **GOHEBIAETH**

- Y Parch.Ganon Robert Townsend

- Swyddfa Rhun ap Iorwerth

  *(Gweler adroddiad y Swyddog Addysg o dan eitem 5)*

# CYNGOR YMGYNGHOROL SEFYDLOG AR ADDYSG GREFYDDOL (CYSAG)
## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd, 2013

**PRESENNOL:** Cynghorydd Dylan Rees (Cadeirydd)

**Yr Awdurdod Addysg**

Cynghorwyr Gwilym O. Jones, R .Llewelyn Jones, Alun Mummery

**Enwadau Crefyddol**

Mrs Catherine Jones (Undeb Bedyddwyr Cymru)
Stephen Francis Roe (Yr Eglwys Fethodistaidd)

**Athrawon**

Mrs Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones)

**WRTH LAW**: Mr D. Gareth Jones (Swyddog Addysg Gynradd)
Ann Holmes (Swyddog Pwyllgor)

**YMDDIHEURIADAU**: Cynghorwyr W.T. Hughes, Peter Rogers, Mr Rheinallt Thomas

**HEFYD YN BRESENNOL**: Miss Bethan James (GwE)

---

**1 DATGANIAD DIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o ddiddordeb.

**2 COFNODION**

Cyflwynwyd a chadarnhawyd cofnodion cyfarfod blaenorol CYSAG a gynhaliwyd ar 28 Mehefin, 2013 fel rhai cywir.

Materion yn codi –

- Atgoffodd y Swyddog Addysg yr Aelodau yn unol â'r drafodaeth yn y cyfarfod blaenorol bod corff CYSAG Ynys Môn yn hanesyddol wedi cadw'r hawl i benodi Cadeirydd o blith cynrychiolwyr yr AALl ar y corff a bod yr AALl yn draddodiadol wedi arfer ei hawl i wneud y penodiad. Dywedodd Swyddog CYSAG, yn y cyfnod ers y cyfarfod blaenorol, fod y Cynghorydd Dylan Rees wedi cael ei benodi i ymgymryd â'r swyddogaeth a chyflwynodd y Cynghorydd Rees i'r CYSAG fel ei Gadeirydd newydd.

  Cymeradwyodd aelodau'r CYSAG y penodiad yn unfrydol.

- Gan gyfeirio at y ddwy ysgol yr oedd dal i ddisgwyl am eu hadroddiadau hunan-arfarnu AG yn y cyfarfod blaenorol, dywedodd y Swyddog Addysg nad oedd yr adroddiadau o Ysgol Pentraeth ac Ysgol y Fali wedi dod i law er gwaethaf sawl cais am y wybodaeth. Awgrymodd bod llythyr yn cael ei anfon at Gadeirydd Corff Llywodraethol yr ysgolion perthnasol. Roedd aelodau'r CYSAG yn cytuno â'r awgrym hwn, o ystyried bod y wybodaeth yn hanfodol i'r corff gyflawni ei gyfrifoldebau monitro a chan gymryd i ystyriaeth y ffaith bod ceisiadau blaenorol wedi eu gwneud am yr adroddiadau.

  **Camau dilynol: Y Swyddog Addysg i ysgrifennu at Gadeiryddion priodol Cyrff Llywodraethol Ysgol Pentraeth ac Ysgol y Fali i holi am argaeledd eu hadroddiadau**

DRAFFT

**hunan-arfarnu Addysg Grefyddol, a pham fod eu darparu’n bwysig i gyflawni dyletswyddau'r CYSAG fel corff monitro.**

- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg fod gwybodaeth am fynediad i wefan Newyddion AG wedi cael ei ddarparu i Aelodau CYSAG ac i bersonél perthnasol eraill. Gofynnodd Miss Bethan James, yr Arweinydd Systemau, i'r Aelodau rannu unrhyw wybodaeth am brosiectau lleol ac arferion da neu arloesol y maent o bosibl yn ymwybodol ohonynt, fel y gallai'r rhain gael eu lledaenu'n ehangach.
- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg fod y trefniadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod blaenorol, lle y byddai CYSAG yn gofyn am adroddiadau hunan-arfarnu'r ysgolion ar sail gylchol yn y sectorau cynradd ac uwchradd, wedi cael eu rhoi ar waith ac mai adroddiad hunan-arfarnu Ysgol Uwchradd Bodedern oedd yr adroddiad uwchradd cyntaf a dderbyniwyd o dan y system newydd, fel sydd wedi ei gynnwys ar yr agenda.
- Mewn perthynas â darparu cymorth ar gyfer y CYSAG, hysbysodd y Swyddog Addysg yr Aelodau fod yr AALl wedi cynnal trafodaethau â GwE, gyda'r canlyniad y bydd 3 diwrnod bob tymor o amser yr Arweinydd Systemau yn cael ei wneud ar gael i'r CYSAG. Bydd y gefnogaeth a ddarperir ar ffurf canllawiau, mewnbwn arbenigol ac adroddiadau i'r CYSAG ond ni fydd yn cynnwys cynnal ymweliadau ag ysgolion. Cafodd mater cefnogaeth ei godi a’i symud ymlaen ar lefel Gogledd Cymru oherwydd sail statudol corff CYSAG. Dywedodd Miss Bethan James, yr Arweinydd Systemau, y byddai'n darparu cymorth gweinyddol i'r CYSAG yn bennaf er bod cais wedi'i wneud ei bod yn parhau yn ei rôl gynrychioliadol yng nghyfarfodydd y CCYSAGC. Oherwydd y newid yn natur y gefnogaeth sydd i'w darparu a cholli mewnbwn ymgynghorol Cynnal i ysgolion, mae angen rhoi ystyriaeth i sut y bydd athrawon AG yn y dyfodol yn cefnogi eu hunain yn eu datblygiad proffesiynol o fewn y maes pwnc. O ganlyniad, bydd hefyd yn disgyn i'r CYSAG fel corff i gynghori'r AALl o ran hwyluso proses lle y gall athrawon AG ddod at ei gilydd i fireinio a datblygu eu sgiliau a'u harbenigedd.
- Cadarnhaodd y Swyddog Addysg fod adroddiad Estyn ar Addysg Grefyddol mewn ysgolion uwchradd wedi cael ei ddosbarthu i 5 ysgol uwchradd yr Ynys yn unol â chais CYSAG yn ei gyfarfod blaenorol.
- O ran yr adolygiad o bynciau'r Cwricwlwm Cenedlaethol, hysbysodd y Swyddog Addysg y CYSAG bod Llywodraeth Cymru yn ymgynghori tan 17eg Ionawr, 2014 ar gynigion ar gyfer cwricwlwm diwygiedig a'r trefniadau asesu yng Nghymru. Mae'r cwricwlwm yn cynnwys 11 o bynciau, gydag AG fel pwnc statudol ychwanegol. Mae'r ymarfer hwn yn cynrychioli'r cam cyntaf o broses dau gam ac yn canolbwyntio ar wella addysgu sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y Cwricwlwm tra bydd yr ail gam yn ymwneud â chynnwys y cwricwlwm. Esboniodd y Swyddog bod Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd cenedlaethol newydd (yn cwmpasu Blynyddoedd 2 i 9) wedi’i gyflwyno beth amser yn ôl a bod cam cyntaf yr ymgynghoriad yn ceisio alinio'r FfLlRh a'r Cwricwlwm yn well, fel bod yr holl bynciau ar draws y Cwricwlwm Cenedlaethol (ac Addysg Grefyddol) yn rhoi cyfleoedd i wella a datblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd. Dywedodd Miss Bethan James mai’r arwyddion ar hyn o bryd yw na fydd AG yn cael ei chynnwys yn yr ymgynghoriad ail gam ar yr adolygiad o'r Cwricwlwm, ar y sail nad yw'r AG yn bwnc cwricwlaidd ac mai mater i gyrff CYSAG lleol yw’r maes llafur Addysg Grefyddol. Fodd bynnag, mae trafodaethau ar y gweill ar y mater hwn, ac mae athrawon AG yn awyddus i'r pwnc adlewyrchu datblygiadau mewn rhannau eraill o'r Cwricwlwm. Dywedodd ei bod hi a’i chyn-ymgynghorwyr dyniaethau sy’n parhau i gefnogi cyrff CYSAG wedi cytuno i gyfarfod ar 6ed Ionawr i drafod a llunio ymateb i gam cyntaf ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ran Panel Ymgynghorol Addysg Grefyddol Cymru. Dywedodd y byddai unrhyw sylwadau y gallai fod gan Aelodau CYSAG ar y mater yn cael eu croesawu.

  Mewn ymateb i gwestiynau gan y CYSAG mewn perthynas â'r hyn y gallai'r ymgynghoriad ei olygu i safonau, esboniodd Miss Bethan James y cefndir i bwyslais Llywodraeth Cymru ar wella sgiliau llythrennedd a rhifedd, gan gynnwys cwestiynau a godwyd o amgylch cysondeb a dilysrwydd asesiadau athrawon yn CA3; cwestiynau’n ymwneud â pharhad rhwng y sectorau cynradd ac uwchradd a'r awgrym nad yw disgyblion ysgolion Cymru yn cyflawni i'r lefelau y gallent yng nghyd-destun profion PISA oherwydd bod eu sgiliau llythrennedd a rhifedd yn wannach. Amlygodd y cynrychiolydd Athrawon Uwchradd beth yn ymarferol y mae’r ffocws ar ddatblygu sgiliau llythrennedd a rhifedd wedi ei olygu yn dilyn cyflwyno'r FfLlRh, o ran ceisio cymhwyso'r sgiliau hynny i bynciau megis Addysg Grefyddol, sy’n golygu bod llai o sylw yn cael ei roi i gynnwys y pwnc er efallai bod safon y gwaith terfynol yn well. Y broblem yw

DRAFT

sicrhau bod cydbwysedd rhwng gofynion y FfLlRh a gwell safonau llythrennedd a rhifedd yn erbyn cwblhau modiwlau pwnc.

Gan fod y CYSAG yn teimlo nad oedd mewn sefyllfa i ddarparu ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad yn y cyfarfod hwn, ac yn wyneb y ffaith na fyddai'r corff yn cyfarfod eto tan ar ôl y dyddiad cau ar gyfer ymateb, awgrymodd yr Arweinydd Systemau bod yr adborth o gyfarfod Panel Ymgynghorol Addysg Grefyddol ar y 6ed Ionawr yn cael ei ddarparu i'r Swyddog Addysg, er mwyn caniatáu i ymateb gael ei wneud gan Ynys Môn. Dywedodd y Swyddog mai'r cwestiwn yw - mewn achos o sefydlu grŵp adolygu cwricwlwm, a yw'r CYSAG am i AG fod yn rhan o'r ddarpariaeth honno, neu aros fel pwnc ar wahân ar ei ben ei hun. Credai aelodau CYSAG ei bod yn bwysig bod Addysg Grefyddol yn cael ei chynnwys mewn trafodaethau ynghylch adolygiad cwricwlaidd a bod y farn honno yn cael ei wneud yn hysbys cyn ail gam yr ymgynghoriad.

**Cytunwyd bod AG fel pwnc yn cael ei gynnwys mewn trafodaethau mewn paratoad ar gyfer ail gam ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gynnwys cwricwlaidd.**

**Camau dilynol: Yr Arweinydd Systemau i ddarparu gwybodaeth am ganlyniad trafodaethau'r Panel Ymgynghorol Addysg Grefyddol o'i gyfarfod ar 6ed Ionawr, 2014 i'r Swyddog Addysg.**

## 3 ADRODDIAD BLYNYDDOL CYSAG YNYS MÔN

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Ynys Môn am 2012/13 i'w ystyried a'i gymeradwyo.

Darparodd Miss Bethan James, yr Arweinydd Systemau, wybodaeth i'r Aelodau ynglŷn â chefndir paratoi'r adroddiad, ynghyd ag esboniad cryno o'i gynnwys a oedd yn seiliedig ar drafodaethau CYSAG yn ei gyfarfodydd a gynhaliwyd yn ystod 2012/13. Aeth y Swyddog ymlaen i ddod â'r materion canlynol i sylw'r CYSAG –

- Gan gyfeirio at adroddiadau hunan-arfarnu'r ysgol, p'un a oedd y CYSAG yn hapus i gefnogi'r arfer o enwi'r ysgolion hynny a oedd wedi methu â chyflwyno adroddiad hunan-arfarnu ar gyfer CYSAG.

  Trafododd yr Aelodau y mater a gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr amserlen a'r gwaith sydd ynghlwm wrth gwblhau'r hunan-arfarnu. Dywedodd yr Arweinydd Systemau bod disgwyl i ysgolion fod wedi ymgymryd â'r gwaith cynllunio paratoadol, sy'n gwneud cwblhau'r ffurflen hunan-arfarnu yn dasg llai beichus.

  Yn wyneb y ffaith bod ceisiadau wedi cael eu gwneud i ysgolion gyflwyno eu hadroddiadau hunan-arfarnu i sylw'r CYSAG am resymau monitro, a bod methiant cychwynnol i wneud hynny yn cael ei ddilyn i fyny gyda gohebiaeth, cytunodd Aelodau'r CYSAG â'r egwyddor bod ysgolion sy'n parhau i fethu â chydymffurfio yn cael eu henwi yn yr Adroddiad Blynyddol.

  **Cytunwyd bod ysgolion sy'n methu â chyflwyno eu hadroddiadau hunan-arfarnu yn cael eu henwi yn yr Adroddiad Blynyddol. Cytunwyd hefyd bod Ysgol y Tywyn ac Ysgol Llanddona yn cael y cyfle i ddiwygio eu hadroddiadau hunan-arfarnu i gynnwys, yn achos y cyntaf, farn ar ansawdd y deilliannau neu ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol, ac yn yr achos olaf, farn ar ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd, i gynnwys barn ar y ddarpariaeth Addysg Grefyddol.**

- Gan gyfeirio at ganlyniadau mewn Addysg Grefyddol, p'un a oedd y CYSAG yn hapus â'r arfer o enwi ysgolion sy'n gallu dynodi nodweddion da er mwyn tynnu sylw at arfer da y gall ysgolion eraill dynnu arno.

  **Cytunwyd bod yr ysgolion hynny sy'n gallu dynodi nodweddion da yn cael eu henwi yn yr Adroddiad Blynyddol.**

- Gan gyfeirio at argymhelliad y CYSAG i AALl Ynys Môn mewn perthynas â chanlyniadau mewn Addysg Grefyddol, p'un a oedd y CYSAG yn hapus i gadw argymhelliad Cyd-gysylltwyr AG i gael eu gwahodd i gyflwyno eu gwaith i Aelodau CYSAG.



DRAFT

**Cytunwyd bod yr argymhelliad hwn yn cael ei gadw yn yr Adroddiad Blynyddol.**

- Gan gyfeirio at yr adran sy'n amlinellu'r cymorth a ddarperir gan Wasanaethau Ymgynghorol Cynnal, nododd yr Arweinydd Systemau y bydd angen rhoi ystyriaeth i gynnwys yr adran hon ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod, gan fod cangen ymgynghorol Cynnal wedi ei diddymu ar 31 Mawrth, 2013.
- Gan gyfeirio at y rhestr o gyhoeddiadau Llywodraeth Cymru ar ffurf dogfennau canllawiau i athrawon Addysg Grefyddol, dywedodd yr Arweinydd Systemau bod y cyfan ond y ddogfen canllawiau *Pobl, Cwestiynau, a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen* wedi cael eu hystyried yn ffurfiol gan y CYSAG. Awgrymodd y Swyddog y byddai'r ddogfen yn ddefnyddiol i ysgolion cynradd fel ystorfa o syniadau i hyrwyddo arfer da, er nad oedd ar gael ar hyn o bryd drwy wefan Llywodraeth Cymru. Cytunodd Aelodau'r CYSAG i gylchredeg copi o'r ddogfen canllawiau i ysgolion cynradd yr Ynys, er mwyn iddynt gael tynnu arni am syniadau ac arfer da.

**Cytunwyd i dderbyn Adroddiad Blynyddol drafft CYSAG Ynys Môn am 2012/13, yn amodol ar y newidiadau argraffyddol a nodwyd yn ystod y drafodaeth.**

**Camau dilynol:**

- **Y Swyddog Addysg i gysylltu ag Ysgol y Tywyn ac Ysgol Gynradd Llanddona i gynnig y cyfle i ail-gyflwyno eu hadroddiadau hunan-arfarnu Addysg Grefyddol i gynnwys barn ar ansawdd y ddarpariaeth AG ac addoli ar y cyd, fel bo'n berthnasol.**
- **Y Swyddog Addysg mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd Systemau i drefnu i ysgolion cynradd gael copi o'r ddogfen canllawiau *Pobl, Cwestiynau a Chredoau: AG a'r Cyfnod Sylfaen,* i gael ei defnyddio fel cyfeiriad ar gyfer syniadau ac arfer da.**
- **Y Swyddog Pwyllgor i ofyn i Gadeirydd CYSAG yn 2012/13 baratoi rhagair i'r Adroddiad Blynyddol.**

**4 SAFONAU ADDYSG GREFYDDOL**

- Cyflwynwyd adroddiad ar asesiadau CA3 Athrawon mewn AG, ynghyd â chanlyniadau arholiadau allanol haf 2013 i sylw'r CYSAG. Roedd yr adroddiad yn darparu gwybodaeth am y safonau a gyrhaeddwyd, cyflawniad cymharol merched a bechgyn, a nifer yr ymgeiswyr yn yr arholiadau.

  Hysbysodd yr Arweinydd Systemau y CYSAG nad oedd data perfformiad CA3 ar gyfer dwy ysgol uwchradd wedi dod i law. Cytunwyd y dylid gofyn i'r ddwy ysgol dan sylw - Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol Uwchradd Bodedern - ddarparu'r data gofynnol. Amlygodd y Swyddog y ffaith bod y bwlch mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched mewn un ysgol yn llai nag mewn rhai o'r lleill - eglurodd Mrs Mefys Edwards yn fyr y drefn o addysgu yn Ysgol Syr Thomas Jones. Awgrymodd yr Arweinydd Systemau fod y CYSAG yn ystyried derbyn cyflwyniad ar gynnwys gwersi AG TGAU, ac yn benodol ar y dulliau a ddefnyddir i wella cyfranogiad a pherfformiad bechgyn mewn AG fel maes pwnc - efallai cyflwyniad gan fechgyn o ran eu hagwedd tuag at Addysg Grefyddol fel pwnc. Hefyd rhoddodd esboniad i Aelodau o gwrs byr Astudiaethau Crefyddol.

  **Cytunwyd i dderbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

  **Camau dilynol:**

  - **Y Swyddog Addysg a'r Arweinydd Systemau mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd i drefnu bod y CYSAG yn cael cyflwyniad yn ei gyfarfod nesaf ynghylch safonau a pherfformiad ac i benderfynu ar gynnwys y cyflwyniad.**
  - **Y Swyddog Addysg ar ran y CYSAG i atgoffa Ysgol Gyfun Llangefni ac Ysgol Uwchradd Bodedern i baratoi a chyflwyno eu data perfformiad AG CA3.**

- Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Addysg a oedd yn darparu crynodeb o rannau perthnasol o adroddiadau Estyn ar Ysgol Cemaes, Ysgol Corn Hir, Ysgol Moelfre ac Ysgol Llaingoch i ystyriaeth y CYSAG. Nododd yr aelodau'r adroddiad.

DRAFT

- Cyflwynwyd adroddiad hunan-arfarnu Addysg Grefyddol Ysgol Uwchradd Bodedern i ystyriaeth y CYSAG.

  Dywedodd yr Arweinydd Systemau fod yr adroddiad yn rhoi trosolwg defnyddiol o safonau mewn AG yn yr ysgol, yn ogystal â blas o'r math o weithgareddau, tasgau a thrafodaethau a drefnir fel rhan o'r ddarpariaeth AG ar wahanol gyfnodau ac fel rhan o drefniadau addoli ar y cyd.

  Nododd y CYSAG yr adroddiad a mynegodd ei werthfawrogiad o'r wybodaeth a ddarparwyd.

  **Camau dilynol: Y Swyddog Addysg i ysgrifennu ar ran y CYSAG at Bennaeth AG yn Ysgol Uwchradd Bodedern i ddiolch iddi/iddo am yr adroddiad.**

- Cyflwynwyd canlyniadau'r holiadur a gwblhawyd gan Aelodau'r CYSAG ar ddiwedd cyfarfod blaenorol y fforwm ym mis Mehefin. Roedd yr holiadur yn ceisio mesur gwybodaeth a dealltwriaeth aelodau o Addysg Grefyddol a gweithdy ar y cyd, yn ogystal â cheisio nodi eu barn am argymhellion i wella effeithiolrwydd y CYSAG fel corff monitro e.e. trwy drefnu i'r Aelodau fynychu sesiwn addoli ar y cyd mewn sampl o ysgolion ac/neu i ymweld ag ysgol i drafod hunan-arfarniad yr ysgol o AG gyda'r Cyd-gysylltydd AG neu Bennaeth yr Adran.

  Er bod yr aelodau'n cytuno ei bod yn bwysig i'r CYSAG fel corff feithrin perthynas agosach gydag ysgolion, yn enwedig yng ngoleuni diddymu'r gwasanaeth ymgynghorol, roeddynt yn pwysleisio y dylai unrhyw ymweliadau a gynhelir ar sail gwahoddiad gan ysgol unigol gael eu gwneud gan grŵp cynrychioliadol o CYSAG, yn hytrach na'r corff yn ei gyfanrwydd.

  **Cytunwyd i nodi'r adroddiad a chymeradwyo'r argymhellion.**

  **Camau dilynol: Y Swyddog Addysg i ymgynghori gyda'r Arweinydd Systemau ynghylch trefniadau i roi'r argymhellion ar waith.**

## 5 GWASANAETH YMGYNGHOROL

Cytunwyd bod y mater hwn wedi cael sylw o dan y materion yn codi o'r cofnodion.

## 6 CYMDEITHAS CYSAGAU CYMRU

- Cyflwynwyd agenda cyfarfod y CCYSAGC a gynhaliwyd yng Nghaerdydd ar 10fed Hydref, 2013 ynghyd â chofnodion cyfarfod y Gymdeithas, a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, Gwynedd. Nodwyd y ddogfennaeth.
- Cyflwynwyd a nodwyd Adroddiad y Trysorydd ar gyfer 2012/13.
- Cyflwynwyd a nodwyd adroddiad ar weithgareddau'r CCYSAGC yn ystod 2012/13

## 7 GOHEBIAETH

Cyfeiriodd y Swyddog Addysg at ohebiaeth a dderbyniwyd ac a anfonwyd, fel y nodwyd yn ei adroddiad o dan eitem 4. Tynnodd y Swyddog sylw at gais a dderbyniwyd a'i anfon ymlaen ato gan y Swyddog Addysg Uwchradd yn dilyn cyfarfod cynharach o Fwrdd Diogelu Lleol Gwynedd a Môn i gynrychiolydd enwadol fynychu cyfarfod y Bwrdd a gynhelir yng Ngwesty'r Celtic Royal, Caernarfon ar 28ain Ionawr, 2014.

Mynegodd Mr Stephen Francis Roe ddiddordeb mewn mynychu'r cyfarfod yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Diogelu i Synod Cymru, a chafodd ei enwebu i wneud hynny gan Aelodau'r CYSAG.

## 8 CYFARFOD NESAF Y CYSAG

Nodwyd fod cyfarfod nesaf y CYSAG fel a drefnwyd am 2pm ar ddydd Mawrth, 18fed Chwefror 2014.

**Cynghorydd Dylan Rees**
**Cadeirydd**



DRAFT

This page is intentionally left blank

# Cyngor Ymgynghorol Sefydlog ar Addysg Grefyddol

# ADRODDIAD BLYNYDDOL
# Ynys Môn
# Medi 2012 – Awst 2013

Cyfarwyddwr Dysgu Gydol Oes
Dr. Gwynne Jones

**CYNNWYS**

**ADRAN 1: CRYNODEB GWEITHREDOL**

1.1 Rhagair gan Gadeirydd CYSAG

**ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG YNYS MÔN**

2.1 Swyddogaeth CYSAG Mewn Perthynas ag Addysg Grefyddol
2.2 Y Maes Llafur Cytûn
2.3 Pa mor dda yw safonau?
2.4 Ymateb yr Awdurdod Addysg Lleol
2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru
2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN
2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

**ADRAN 3: ATODIADAU**

3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG
3.2 Aelodaeth CYSAG Môn 2012-13
3.3 Cyfarfodydd CYSAG a gynhaliwyd yn ystod y cyfnod adrodd
3.4 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad
3.5 Templed CYSAG Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol
3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**ADRAN 1:**
**CRYNODEB GWEITHREDOL**

**Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol**

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

## 1.1 Rhagarweiniad gan y Cadeirydd

Aeth blwyddyn arall heibio yn ein hymwneud ag Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd, yr unig maes, fel y gwyddoch, o'r holl a ddysgir yn ein hysgolion a gaiff ei reoli ar lefel lleol gan gyngor o gynrychiolwyr lleol.

Rydym wedi cael cyfle, yn ystod y flwyddyn, i graffu ar adroddiadau hunan arfarnu nifer o ysgolion y sir. Rydym yn llongyfarch yr athrawon a'r disgyblion am eu llwyddiannau ac yn gwerthfawrogi parodrwydd y penaethiaid i gydnabod y meysydd sydd angen eu gwella. Calonogol iawn oedd safonau addysg grefyddol ac astudiaethau crefyddol yn ystod y flwyddyn. Ymfalchïwn yn y canlyniadau, er gobeithiwn y gwelir y bwlch rhwng canlyniadau'r bechgyn a'r merched yn cau. Mae lle gennym i ddiolch am ymateb ac ymroddiad yr athrawon yn hyn oll.

Carwn fanteisio ar y cyfle i ddiolch am ymroddiad a ffyddlondeb Aelodau'r Pwyllgor yn ystod y cyfnod y cefais y fraint o fod yn Gadeirydd. Diolchaf hefyd am gefnogaeth a dygnwch y gwahanol Swyddogion a fu'n ymwneud â'r gweithgaredd.

Teg yw dweud y bydd gwacter o fewn y drefn gyda chefnogaeth CYNNAL wedi dod i ben. Er hyn, deallaf o dan y drefn newydd efo GWE, na fydd cysylltiad Miss Bethan James wedi ei golli yn llwyr. Ymlaen â'r gwaith a dymuniadau da a gwenau'r nef fo ar yr holl weithgaredd.

E. G.Davies
Eurfryn G Davies.
Cadeirydd, 2012-13

## ADRAN 2: CYNGOR I AWDURDOD ADDYSG MÔN

### 2.1 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addysg Grefyddol

Ceir amlinelliad clir o swyddogaeth CYSAG yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig.

Mae CYSAG yn cynghori'r Awdurdod Addysg ar faterion yn ymwneud â darparu Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd, ac y mae'n gyfrifol am sefydlu cynulliad achlysurol, Cynhadledd Maes Llafur Cytûn, i gynhyrchu neu ystyried diwygio Maes Llafur Cytûn ar gyfer Addysg Grefyddol.

### 2.2 Y Maes Llafur Cytûn

Mae CYSAGau Gwynedd a Môn wedi mabwysiadu'r 'Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol i ddysgwyr 3 i 19 oed' fel Maes Llafur Cytûn Gwynedd a Môn (2008). Hyrwyddir y ddogfen yn ystod cyfnodau hyfforddiant mewn swydd ac ar ymweliadau i ysgolion. Datblygir deunyddiau i gefnogi'r Maes Llafur Cytûn fel rhan o'r rhaglen hyfforddi.

Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1) (a).

### 2.3 Pa mor dda yw safonau?

Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- dderbyn crynodeb o hunan arfarniadau ysgolion mewn ymateb i gwestiynau allweddol Fframwaith Arolygu ESTYN;
- ddadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- wirio adroddiadau arolygiadau ESTYN rhag ofn bod cyfeiriad at 'addysg grefyddol' neu 'addoli ar y cyd';
- dderbyn adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ymgynghorol CYNNAL;

#### 2.3.1 Adroddiadau hunan arfarnu ysgolion

Ers cyfarfod CYSAG Môn ar 14 Chwefror 2011, penderfynwyd parhau â'r drefn a sefydlwyd eisoes, ac i ofyn i benaethiaid lenwi'r daflen hunan arfarnu ddiwygiedig i fonitro safonau. Mae CYSAG Môn, penaethiaid ysgolion Môn ac aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (PYCAG) wedi cymeradwyo'r templed a luniwyd mewn ymateb i'r Fframwaith Arolygu Newydd (gweler Atodiad 3.5). Mae clerc CYSAG Môn, sy'n swyddog addysg gyda Chyngor Ynys Môn, yn gyfrifol am ddosbarthu a chasglu'r hunan arfarniadau. Gofynnir i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

Mae Cwmni CYNNAL wedi llunio canllawiau a phatrymlun ar gyfer ysgolion cynradd ac uwchradd sydd yn cynnig arweiniad i benaethiaid ac athrawon ar sut i fynd ati i gynnal ymarferiad hunan arfarnu a'r math o feini prawf dylent fod yn mesur eu hunain yn eu herbyn. Cyflwynir canllawiau ar gyfer arsylwi gwersi, arfarnu samplau o waith dysgwyr, dadansoddi data, dod i farn ar safonau sgiliau trawsgwricwlaidd, ac ar drafod â disgyblion. Mae pob cwrs hyfforddi ym maes y Dyniaethau yn cynnwys elfen o hunan arfarnu ac yn codi ymwybyddiaeth athrawon o'r canllawiau a dosbarthwyd gan Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru. Cyfeirir athrawon hefyd at y tri chwestiwn sy'n sail i drefn arolygu ESTYN:

1. Pa mor dda yw'r deilliannau?
2. Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
3. Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a rheolaeth?

Derbyniwyd 6 adroddiad hunan arfarniad gan benaethiaid ysgolion cynradd yn ystod y flwyddyn: Corn Hir, Llanfachraeth, Llanddona, Penysarn, Rhosybol, Y Tywyn. Ni dderbyniwyd adroddiadau gan 4 ysgol a arolygwyd yn ystod 2012: Brynsiencyn, Cemaes, Llanbedrgoch, Pentraeth, Y Fali.

Mae'r adroddiadau hunan arfarnu yn gofyn i ysgolion i ymateb i gwestiwn allweddol 1 a 2 o'r fframwaith arolygu newydd. Mae'r ysgolion yn cyflwyno barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr ac yn nodi'r agweddau a fydd yn cael sylw dros y ddwy flynedd nesaf. Maent hefyd yn cyflwyno barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth mewn addysg grefyddol ac addoli ar y cyd. Yn sgil y broses o hunan arfarnu safonau, dyfarnodd yr ysgolion y graddau isod:

| | **Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol** | | | | **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addoli ar y cyd?** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol | Rhagorol | Da | Digonol | Anfoddhaol |
| **Cynradd** | | 5 | | | 1 | 4 | | | 1 | 3 | 1 | |
| **Cyfanswm** | | 5 | | | 1 | 4 | | | 1 | 3 | 1 | |

Roedd tua hanner yr adroddiadau hunan arfarnu yn ymateb i ofynion CYSAGau Gwynedd a Môn trwy gyflwyno sylwadau arfarniadol oedd yn seiliedig ar dystiolaeth bendant. Yn yr enghreifftiau gorau roedd y sylwadau yn feintiol ac yn fesuradwy. Fodd bynnag roedd llawer o'r sylwadau yn gyffredinol iawn wrth gyfeirio at safonau pwnc a'r ddarpariaeth ar gyfer addysg grefyddol. Prin oedd y cyfeiriadau at ofynion y Maes Llafur Cytûn.

## Pa mor dda yw'r deilliannau mewn addysg grefyddol?

Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddisgrifio a thrafod prif nodweddion defodau, gwyliau a dathliadau crefyddol; (Rhosybol, Penysarn)
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion CA2 i adnabod prif nodweddion a gwrthrychau addoli, y defnydd a wneir ohonynt a phwysigrwydd mannau pererindod o fewn amryw o grefyddau'r byd; (Rhosybol).
- gallu'r rhan fwyf o ddisgyblion i alw i gof rhai o gredoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol yr ymchwilir iddynt; (Corn Hir, Penysarn)

- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i nodi'r hyn sy'n debyg ac yn wahanol o fewn ac ar draws y crefyddau; (Corn Hir)
- gallu'r lleiafrif o ddisgyblion i wneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaethau ac arferion crefyddol gan ddisgrifio'r effaith ar fywydau credinwyr; (Corn Hir)
- gallu'r rhan fwyaf o ddisgyblion i ddeall iaith symbolaidd ac i ddefnyddio ystod o eirfa grefyddol yn addas, (Corn Hir) a
- gallu llawer o ddisgyblion i drafod eu hymatebion hwy ac eraill i gwestiynau am fywyd, y byd o'u cwmpas a chrefydd. (Corn Hir)

Ymhlith yr agweddau a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf, roedd tua hanner yr ysgolion yn nodi'r angen i:

- ddatblygu gallu disgyblion y Cyfnod Sylfaen i holi cwestiynau a mynegi barn; (Corn Hir)
- sicrhau bod y tasgau addysg grefyddol yn herio'r disgyblion mwy galluog; (Corn Hir)
- ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth disgyblion y Cyfnod Sylfaen am rai o grefyddau'r byd, (Rhosybol) a
- datblygu ymhellach dealltwriaeth disgyblion CA2 o'r cyswllt rhwng credoau (Penysarn).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn addysg grefyddol?**

Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- wybodaeth bynciol da'r athrawon a'r cynlluniau dysgu sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad yn sgiliau addysg grefyddol y disgyblion; (Corn Hir)
- yr ystod eang o brofiadau sy'n galluogi disgyblion y Cyfnod Sylfaen i wneud cynnydd da mewn gwybodaeth a dealltwriaeth a sgiliau trafod a rhesymu yn y maes; (Corn Hir)
- dulliau asesu manwl sy'n cynorthwyo athrawon i ddarparu tasgau ar gyfer gwahanol alluoedd; (Corn Hir)
- yr ymweliadau a'r ymwelwyr sy'n ysgogi diddordeb y disgyblion mewn addysg grefyddol;(Corn Hir)
- amrediad da o adnoddau addas; (Corn Hir, Llanfachraeth)
- parodrwydd y staff i ymchwilio i ddulliau addysgu addas ar gyfer addysg grefyddol*, e.e. trwy fynychu cyrsiau hyfforddiant, cydweithio gydag athrawon eraill a darllen 'Newyddion Addysg Grefyddol';* (Rhosybol)

Ymhlith yr agweddau fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flwyddyn nesaf mae tua hanner yr ysgolion yn awyddus i:

- sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i adnabod meini prawf llwyddiant addas ac i fyfyrio ar y dysgu; (Corn Hir)
- parhau i gynnig ystod eang o brofiadau diddorol a gwerthfawr; (Corn Hir)
- datblygu gallu pob disgybl i ymateb a thrafod pynciau sy'n ymwneud ag addysg grefyddol, a (Llanddona)
- datblygu ymwybyddiaeth y disgyblion o gwestiynau sylfaenol (Penysarn).

**Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?**

Roedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r gofynion statudol.
Roedd tua hanner yr ysgolion yn ymfalchïo mewn rhai agweddau megis:

- y cyfleoedd i archwilio agweddau moesol, ysbrydol a chrefyddol a meithrin ysbryd cymunedol; (Corn Hir)
- y defnydd o straeon Beiblaidd a straeon moesol fel sbardun i'r sesiynau addoli ar y cyd; (Rhosybol)

Ymhlith y materion a fydd yn cael sylw yn ystod y ddwy flynedd nesaf mae:

- efelychu'r arferion rhagorol ymhob sesiwn addoli ar y cyd; (Corn Hir)
- sicrhau bod pob aeloda o staff yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas ag addoli ar y cyd; (Corn Hir)
- datblygu'n ymhellach ethos yr addoliad er mwyn iddo adlewyrchu rhywbeth sydd ar wahân i weithgareddau arferol yr ysgol ar bob achlysur; (Corn Hir)
- mwy o gyfleoedd i ddisgyblion i ddatblygu ac arwain gwasanaethau addoli ar y cyd; (Rhosybol, Penysarn)
- defnyddio mwy o gyflwyniadau aml-gyfryngol yn y sesiynau addoli ar y cyd (Rhosybol).

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Cysylltu gydag Ysgol Corn Hir, Llangefni i ddiolch iddynt am yr adroddiad hunan arfarnu ac yn gofyn am ganiatad yr ysgol i rannu'r adroddiad fel enghraifft dda o hunan arfarniad ysgol;
- Llunio camau gweithredu ar gyfer mynd i'r afael âg ysgolion sydd heb gyflwyno adroddiad CYSAG i sylw CYSAG;
- Cytuno ar amserlen a threfn hunan arfarnu fel bod pob ysgol yn ymwybodol o'r disgwyliadau,
- Gwahodd un cydlynydd addysg grefyddol i wneud cyflwyniad yn y cyfarfod dilynol o GYSAG;
- Datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau rheolaethol cydlynwyr ac arweinyddion pwnc, ac

## 2.3.2 Asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau allanol yn y sector uwchradd

**Asesiadau athrawon: Addysg Grefyddol CA3**

Mae adrannau yn dod i farn am gyflawniad disgyblion ar sail gwaith y flwyddyn, tasgau asesu a phrofion. Mae athrawon ymgynghorol CYNNAL wedi arwain nifer o gyfarfodydd hyfforddi ers 2007 er mwyn dadansoddi nodweddion y disgrifiadau lefel a chynllunio gweithgareddau dysgu priodol.

Gwahoddwyd adrannau uwchradd i gyflwyno portffolios o waith disgyblion i sylw safonwyr allanol CBAC yn 2010/11 a 2011/12 er mwyn safoni dealltwriaeth athrawon o'r disgrifiadau lefel. Cwblhawyd y broses hon yn Haf 2012 ac mae pob adran wedi derbyn adroddiad yn nodi os oedd y safonwyr yn cytuno gyda'u dehongliad neu beidio. Roedd yr adroddiadau yn cynnig arweiniad pellach i'r athrawon os oedd y safonwyr wedi methu a chytuno gyda dehongliad yr ysgol. Nid oes cyfleoedd pellach i ailgyflwyno'r portffolios.

- Mae 4 adran uwchradd wedi cyflwyno portffolio i sylw'r safonwyr allanol. Nid oedd Ysgol Uwchradd Caergybi wedi cyflwyno portffolio.

- Mae'r mwyafrif o adrannau wedi dangos dealltwriaeth dda o nodweddion Lefelau 4 a 5. Mae gan tua hanner o'r adrannau dealltwriaeth dda o nodweddion Lefelau 6 a 7.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Ynys Môn**

- Darparu cefnogaeth i'r adrannau oedd wedi methu cyflwyno portffolio neu wedi methu dangos dealltwriaeth llawn o'r nodweddion lefelau.

Nid yw Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru yn casglu canlyniadau CA3 Addysg Grefyddol felly nid oes modd cymharu perfformiad ysgolion uwchradd Môn gydag ysgolion eraill ar draws Cymru. Mae CYNNAL yn casglu data perfformiad CA3 ar ran awdurdodau Môn (M), Gwynedd (G) a Chonwy (C).

| Blwyddyn | Ysgolion | Disgyblion | | %L5+ | | %L6+ | | %L7+ | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | M+G+C | Môn | M+G+C* | Môn | M+G+C* | Môn | M+G+C* | Môn | M+G+C* |
| 2012° | 5(5)+13(14)+4(7) | 656 | 2,568 | 74.1 | 82.9% | 29.7 | 43.4% | 6.9 | 12.7% |
| 2011 | 3(5)+11(14)+2(7) | 377 | 1,767 | 76.9% | | 26.0% | | 10.1% | |

* Erbyn diwedd tymor yr Hydref 2012 roedd pob ysgol ym Môn wedi cyflwyno data perfformiad CA3, 13 allan o 14 ysgol uwchradd yng Ngwynedd a 4 allan o 7 ysgol yng Nghonwy. Nid oedd yr ysgolion arbennig wedi cyflwyno asesiadau athrawon ar gyfer addysg grefyddol.

° Daeth y broses o gymedroli portffolios addysg grefyddol i ben yn Haf 2012, felly gellid tybio bod cysondeb yn nealltwriaeth yr ysgolion o'r lefelau cyrhaeddiad.

- Cyflwynodd pob ysgol data asesiadau athrawon o gyrhaeddiad eu disgyblion ar ddiwedd CA3. Nid oedd yr ysgol arbennig wedi cyflwyno data.
- Aseswyd 656 o ddisgyblion CA3 yn Haf 2012.
- Cyflawnodd 74.1% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 5+ mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 5+ yn amrywio o 63.2% i 80%%;
- Cyflawnodd 29.7% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 6 mewn Addysg Grefyddol. Mae'r canran a dderbyniodd Lefel 6+ yn amrywio o 22.1% i 45.5%.
- Cyflawnodd 6.9% o ddisgyblion CA3 Ynys Môn Lefel 7 mewn Addysg Grefyddol. Dyfarnwyd Lefel 7 i ddisgyblion ymhob ysgol ac mae'r canran yn amrywio o 1.5% i 15.5%
- Dyfarnwyd Lefel 3 neu is i ddisgyblion ymhob ysgol.
- Nid oedd un disgybl yn deilwng o L8 mewn addysg grefyddol.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs llawn)**

Mae'r drefn o adrodd ar ganlyniadau arholiadau allanol wedi newid eto eleni. Mae'r amrediad o bynciau, byrddau arholi ac arholiadau modylol yn golygu ei fod yn anodd pennu sgorau cyfartalog yr holl bynciol. Amhriodol felly yw cymharu perfformiadau ysgolion yn erbyn ei gilydd . Fodd bynnag mae'r wybodaeth yma ar gael i'r ysgolion a disgwylir i benaethiaid adrannau addysg grefyddol i gyfeirio at berfformiad eu disgyblion mewn pynciau eraill wrth iddynt hunan arfarnu safonau'r pwnc.
Cyflwynir yma ganlyniadau ar gyfer y disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| 2012 | 46 | 110 | 156 | 43.5 | 65.5 | 59.0 | 76.1 | 94.5 | 89.1 | 100 | 100 | 100 | 44 | 50 | 49 |
| 2011 | 46 | 100 | 146 | 21.7 | 58.0 | 46.6 | 67.4 | 92.0 | 84.2 | 100 | 100 | 100 | 41 | 49 | 47 |
| 2010 | 22 | 54 | 76 | 27.3 | 48.1 | 42.1 | 40.9 | 90.7 | 76.3 | 100 | 100 | 100 | 36 | 48 | 44 |

Canlyniadau da iawn.

- 156 o ymgeiswyr o bedair ysgol yn Ynys Môn.
- Mae'r niferoedd yn amrywio o 20 disgybl mewn un ysgol i 55 mewn ysgol arall.
- Llwyddodd 59% o'r ymgeiswyr i ennill gradd A*/A (rhagoriaeth). Mae hyn yn uwch na chanran 2011 (46.6%).
- Llwyddodd 89.1% o'r ymgeiswyr i ennill cymhwyster Lefel 2. Mae hyn yn fwy na chanran 2011 (84.2%).
- Eleni eto, llwyddodd pob ymgeisydd i ennill cymhwyster Lefel 1 .
- Mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis AG yn ysgolion Ynys Môn (B 46 : G 110).
- Mae canlyniadau'r genethod yn rhagori ar ganlyniadau'r bechgyn. Mae sgôr cyfartalog y merched yn 50 o'i gymharu â sgôr cyfartalog y bechgyn, 44. Mae'r bwlch rhwng y bechgyn a merched wedi lleihau am y drydedd flwyddyn yn olynol. Mae +8 yn cynrychioli gradd TGAU.

**Canlyniadau TGAU: Astudiaethau Crefyddol (cwrs byr)**

Cyflwynir yma ganlyniadau ar gyfer y disgyblion oedd yn 15 oed neu'n hŷn yn Ionawr 2012. Mae'r disgyblion yma wedi dilyn cwrs byr TGAU ac wedi penderfynu hawlio eu pwyntiau yn hytrach na pharhau a'u hastudiaethau er mwyn ennill cymhwyster cwrs cyfan.

| Ysgolion Uwchradd Ynys Môn | Nifer yn sefyll | | | % Rhagoriaeth | | | % L2 | | | % L1 | | | Sgôr cyfartalog y pwnc | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ | B | G | Σ |
| 2012 | 4 | 3 | 7 | | | | 50.0 | 66.7 | 57.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 21 | 20 |
| 2011 | 32 | 37 | 69 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 65.6 | 86.5 | 76.8 | 100 | 100 | 100 | 20 | 24 | 22 |
| 2010 | 70 | 136 | 206 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 61.4 | 91.2 | 81.1 | 100 | 100 | 100 | 19 | 24 | 22 |

Mae'n annhebygol y bydd cefnogaeth ymgynghorol addysg grefyddol ar gael i ysgolion ar ôl Mawrth 2013.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn cael mynediad i arweiniad pynciol bwrdd arholi CBAC;
- Hwyluso cymunedau dysgu proffesiynol i athrwaon addysg grefyddol er mwyn ymchwilio i gwestiynau allweddol megis:
    - *Pam mae disgyblion yn dewis y pwnc? Pam nad ydynt yn dewis y pwnc? Pam mae mwy o enethod na bechgyn yn dewis astudio'r pwnc?*
    - *Beth gall adrannau ddysgu oddi wrth adrannau eraill ynglyn â'r ffordd orau o gefnogi bechgyn wrth iddynt baratoi at arholiadau allanol. Pa strategaethau eraill dylid eu hystyried er mwyn cau y bwlch rhwng y merched a'r bechgyn?*
    - *Sut gall adrannau herio'r disgyblion i gyflawni gwaith o'r safon uchaf?*

### 2.3.3 Adroddiadau Arolygiadau ESTYN

Arolygwyd 11 ysgol ym Môn yn ystod y flwyddyn. Nid oedd cyfeiriad at addysg grefyddol yn yr adroddiadau. Nodwyd bod safon addoli ar y cyd yn dda.

### 2.4 Ymateb yr Awdurdod Lleol

Adroddwyd ar ansawdd a datblygiad y ddarpariaeth addysgol yn ysgolion Ynys Môn yn ystod y flwyddyn academaidd trwy gyfrwng yr Adroddiad Blynyddol ar y Gwasanaeth Addysg. Wrth ystyried blaenoriaethau Cynllun Plant a Phobl Ifanc Ynys Môn 2011-14 mae amcan craidd 2 yn berthnasol i GYSAG Ynys Môn.

**Amcan Craidd 2 – Pob plentyn ac unigolyn ifanc yn cael mynediad i ystod gynhwysfawr o addysg, hyfforddiant a chyfleoedd dysgu**

Pwrpas yr Amcan Craidd hwn yn sicrhau bod *'yr holl blant a phobl ifanc yn cyflawni eu potensial yn llawn ac yn datblygu sgiliau ar gyfer bywyd'.*

Mae Cyngor Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn darparu cefnogaeth ariannol i GYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Mae CYNNAL yn penodi Ymgynghorydd Dyniaethau, gyda chyfrifoldeb am Addysg Grefyddol, Daearyddiaeth, Hanes, ac Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang er mwyn darparu cefnogaeth gwricwlaidd i ysgolion cynradd ac uwchradd y ddwy sir. Cynigir hefyd secondiad hanner amser (0.5 yn 2011-12) i athro neu athrawes weithio fel athro neu athrawes ymgynghorol.

### 2.4.1 Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol

Ers 1996, mae ysgolion cynradd ac uwchradd y sir wedi derbyn cefnogaeth gan CYNNAL (y gwasanaeth ymgynghorol). Penodwyd Ymgynghorydd Dyniaethau ac athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol (rhan amser) i ymweld ag ysgolion fel rhan o'r rhaglen 'hawl a haeddiant' ac i ddarparu cyrsiau hyfforddi. Cafwyd cefnogaeth tair athrawes ymgynghorol yn ystod 2011-12:

- Mrs Leusa Jones (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon uwchradd
- Miss Debbie Humphreys: (1 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.
- Mrs Nia Wyn Jones (0.5 diwrnod yr wythnos): yn cefnogi athrawon cynradd.

Roedd y tîm ymgynghorol wedi cynorthwyo athrawon yn ystod y flwyddyn, i gynllunio'u rhaglenni astudio a chynlluniau asesu, paratoi gweithgareddau dosbarth a dethol adnoddau dosbarth addas. Roedd datblygu medrau meddwl, sgiliau hanfodol y dysgwyr ac arweinyddiaeth yn flaenoriaeth i athrawon y sir. Mae CYNNAL wedi cefnogi ysgolion sy'n paratoi at arolygiad trwy gynorthwyo athrawon ac adrannau i hunan arfarnu safonau mewn addysg grefyddol. Roedd cyfraniad yr athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol yn allweddol i rannu arferion da, datblygu gweithgareddau dosbarth symbylol a chynnal athrawon wrth iddynt baratoi at y dyfodol.

Mae'r Ymgynghorydd Dyniaethau a/neu'r athrawon ymgynghorol wedi gweithredu ar ran awdurdodau addysg Gwynedd a Môn ac wedi cyflwyno adroddiadau tymhorol i sylw CYSAG. Roedd y cyflwyniadau hyn yn fodd i rannu datblygiadau diweddaraf yn y maes, materion yn ymwneud â phedagogiaeth ac adnoddau, ac amlinelliad o'r gwaith a wneir gydag ysgolion yr AALl.

Ymatebodd y tîm ymgynghorol i anghenion ysgolion yn 2012-13 trwy:

- gefnogi ysgolion wrth iddynt ymateb i'r Maes Llafur Cytûn Lleol a'r drefn hunan arfarnu newydd. Darparwyd y gefnogaeth mewn cyrsiau hyfforddi, ymweliadau ysgol, cyswllt e-bost a safle Moodle CYNNAL;
- adnabod nodweddion hunan arfarniad da gan gyfeirio'n benodol at iaith arfarnon a thystiolaeth feintiol a mesuradwy;
- baratoi a darparu cyrsiau hyfforddi:
    - 'Cau'r Blwch: Dysgu ac Addysgu Effeithiol' i athrawon AG uwchradd. Defnyddiwyd samplau o waith disgyblion ac adroddiadau arsylwi gwersi enghreifftiol er mwyn dod i farn am safonau addysgu grefyddol a llythrennedd y disgyblion ac am safon y ddarpariaeth. Rhoddwyd sylw hefyd i ddefnyddio iaith a therminoleg addas wrth lunio adroddiadau hunan arfarnu.
    - 'Astudiaethau Crefyddol TGAU' i athrawon AG uwchradd dan arweiniad prif swyddog CBAC.
    - 'Data a Dirgelion: datblygu sgiliau darllen yn y Dyniaethau' i athrawon CA3 AG uwchradd. Roedd y sesiwn bore yn gyfle i ddefnyddio dirgelwch trawsgwricwlaidd 'Caethwasiaeth' er mwyn modelu gweithgaredd darllen, llafaredd a darllen. Ffocws sesiwn y prynhawn oedd datblygu sgiliau darllen data disgyblion wrth iddynt ddefnyddio siartiau, graffiau, tablau a diagramau fel tystiolaeth i ymchwilio i gwestiynau sylfaenol.
    - 'Beth yw ystyr y Nadolig?' i athrawon AG cynradd. Defnyddiwyd addoldy (Eglwys Biwmares), arteffactau, stori Feiblaidd a charolau i hybu sgiliau ymchwilio a sgiliau llythrennedd y disgyblion.

- ➢ Cwrs 5 diwrnod Hyfforddi a Datblygu Athrawon yn y Dyniaethau. Roedd y thema 'heddwch' yn gyfrwng i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth yr athrawon o Fwdhaeth ac i fodelu gweithgareddau enghreifftiol i hybu ysgrifennu estynedig ymhlith disgyblion CA2. Bu cyfle hefyd i hunan arfarnu safonau addysg grefyddol. Gwelwyd effaith yr hyfforddiant yn aseiniadau'r athrawon: cynlluniau gwaith, ymchwil gweithredu, dangos dealltwriaeth o un lefel cyrhaeddiad.
- ➢ Deall Safonau yng Nghyfnod Allweddol 3. Cydweithiodd tri ymgynghorydd addysg grefyddol rhanbarth Gogledd Cymru er mwyn trefnu cwrs hyfforddi i athrawon CA3. Arianwyd y cwrs gan Gymdeithas CYSAGau Cymru, awdurdodau lleol Gogledd Cymru ac ysgolion uwchradd yr ardal. Atgyfnerthwyd yr arweiniad blaenorol a rhoddwyd i athrawon CA3, wrth iddynt gynllunio ac asesu gweithgareddau cyfoethog mewn addysg grefyddol, gan gyfeirio at y ddogfen, 'Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer CA2 a CA3' (Llywodraeth Cymru). Mynychodd cynrychiolwyr o 5 adran addysg grefyddol uwchradd ym Môn yr hyfforddiant.

- arsylwi gwersi athrawon newydd gymhwyso yn y sector uwchradd;
- ddefnyddio safwe Moodle CYNNAL fel cyfrwng i rannu adnoddau a chanllawiau i athrawon wrth iddynt baratoi gweithgareddau addysg grefyddol, a
- chyfrannu erthyglau i 'Newyddion Addysg Grefyddol' er mwyn rhannu newyddion ac arferion da o Wynedd a Môn.

Pob tymor, bydd yr Ymgynghorydd Dyniaethau yn mynychu cyfarfodydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol yn ogystal â chyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru. Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL yw cadeirydd Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol eleni. Mae'r cyfarfodydd hyn yn sicrhau fforymau cenedlaethol i drafod materion sy'n ymwneud ag Addysg Grefyddol.

### 2.4.2 Cefnogaeth i ysgolion ar ôl Ebrill 2013

Daeth cangen ymgynghorol CYNNAL i ben ar 31 Mawrth 2013. Nid oes bellach ymgynghorydd dyniaethau nac athrawon ymgynghorol addysg grefyddol yn gwasanaethu ysgolion Gwynedd a Môn. Mae Miss Bethan James wedi ei phenodi fel arweinydd system i'r GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion).

## 2.5 Addysg Grefyddol a Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi a dosbarthu canllawiau i gefnogi athrawon addysg grefyddol:

- http://cymru.gov.uk > chwiliwch am Addysg Grefyddol
- Y Maes Llafur Cytûn (neu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol yng Nghymru)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)
- Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)
- Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)
- Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013)
- Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr 2012 (http://cbac.co.uk )

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol yn ymwybodol o'r canllawiau sydd ar gael ac yn gweithredu ar yr arweiniad.

## 2.6 Addysg Grefyddol ac ESTYN

Mae CYSAG Môn yn argymell yr adnoddau canlynol i athrawon addysg grefyddol a phenaethiaid ysgolion yr ardal:

- www.estyn.org.uk
- Addysg Grefyddol mewn Ysgolion Uwchradd (ESTYN, Mehefin 2013)
- Arweiniad atodol : addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol (2011)

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau bod athrawon addysg grefyddol uwchradd yn ymwybodol o gasgliadau ac yn gweithredu ar argymhellion adroddiad ESTYN.

## 2.7 Swyddogaeth CYSAG mewn perthynas ag Addoli ar y Cyd

Nodir yng Nghylchlythyr 10/94 y Swyddfa Gymreig y dylai'r Awdurdod Addysg weithio gyda'i ChYSAG i gadw llygad ar ddarparu addoli ar y cyd dyddiol ac ystyried gydag ef unrhyw gamau y gellid eu cymryd i wella darpariaeth o'r fath.

Rhaid i'r addoliad fod "yn gyffredinol Gristnogol ei gymeriad". Mae'r weithdrefn "penderfynu" yn caniatáu atal y gofynion hyn mewn perthynas â rhai neu'r cyfan o'r disgyblion mewn ysgol lle nad ydynt yn briodol.

- Mae aelodau CYSAG ac ysgolion Môn wedi derbyn canllawiau addoli ar y cyd:
  - 'Arweiniad atodol ar arolygu addoli ar y cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Mehefin 2008);
  - Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013).

- Mae CYSAG Môn yn monitro safonau addoli ar y cyd trwy dderbyn a thrafod hunan arfarniad ysgolion yn ystod y cyfarfodydd.

- Mae CYSAG Môn yn argymell bod ysgolion yn defnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion:
  - Safle Moodle CYNNAL: canllawiau, amserlen enghreifftiol, rhestr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion cynradd yr ardal.
  - Gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol. Mae'r Awdurdod yn dosbarthu'r adnoddau misol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig ym Môn

**Penderfyniadau**

Ni chafwyd cais gan unrhyw ysgol am benderfyniad mewn perthynas ag addoli ar y cyd.

**Argymhellion CYSAG i Awdurdod Addysg Môn**

- Sicrhau ysgolion yn cydyffurfio â'r gofynion statudol mewn perthynas ag addoli ar y cyd a darparu sesiynau addoli ar y cyd o ansawdd;
- Cynghori'r ysgolion i ddefnyddio amrediad o adnoddau er mwyn darparu sesiynau addoli ar y cyd ystyrlon i'w disgyblion. Mae safle Moodle CYNNAL yn fan cychwyn da ar gyfer canllawiau, amserlen enghreifftiol, restr o lyfrau a gwefannau defnyddiol, deunyddiau enghreifftiol gan ysgolion lleol.
- Dosbarthu gwasanaeth misol Cymorth Cristnogol i bob ysgol gynradd, uwchradd ac arbennig **yn Môn.**

**ADRAN 3: ATODIADAU**

## 3.1 Gwybodaeth gyffredinol am gyfansoddiad CYSAG

**Sefydlwyd CYSAG gan Bwyllgor Addysg Môn yn 1996 i gynnwys:**

**Cristnogion a Chrefyddau Eraill, sef**
- Yr Eglwys Fethodistaidd
- Undeb Bedyddwyr Cymru
- Eglwys Bresbyteraidd Cymru
- Yr Eglwys yng Nghymru
- Undeb yr Annibynwyr
- Yr Eglwys Gatholig

**Athrawon**, sef,
- Cymdeithas y Prifathrawon (SHA)
- Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC)
- Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawon (NASUWT)
- Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT)
- Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr (ATL)
- Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT)

**Aelodau etholedig**

## 3.2 Aelodaeth CYSAG Ynys Môn 2012-13

**Cynrychiolwyr yr Enwadau Crefyddol**

| | |
|---|---|
| Yr Eglwys Fethodistaidd | Y Diacon Stephen Francis Roe |
| Undeb Bedyddwyr Cymru | Mrs Catherine Jones |
| Eglwys Bresbyteraidd Cymru | Mr Rheinallt Thomas |
| Yr Eglwys yng Nghymru | gwag |
| Undeb yr Annibynwyr | Yr Athro Euros Wyn Jones |
| Yr Eglwys Babyddol | *gwag* |

**Cynrychiolwyr Undebau'r Athrawon**

| | |
|---|---|
| Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (ASCL) | Martin Wise (Ysgol Caergybi) |
| Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru (UCAC) | Mefys Edwards (Ysgol Syr Thomas Jones) |
| Cymdeithas yr Ysgolfeistri ac Undeb yr Athrawesau (NASUWT) | *gwag* |
| Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (NUT) | *gwag* |
| Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) | *Gwag* |
| Cyfetholwyd | Alison Jones (Ysgol Parch T Ellis)<br>Bethan Ll Jones (Ysgol y Graig) |

**Cynrychiolwyr yr Awdurdod Addysg Lleol**

**Cynghorydd E. G. Davies (Cadeirydd)**
Cynghorydd Jim Evans
Cynghorydd W T Hughes
Cynghorydd Gwilym O Jones
Cynghorydd R Llewelyn Jones
Cynghorydd Alun Mummery
Cynghorydd G O Parry (M.B.E)
Cynghorydd Dylan Rees
Cynghorydd Peter Rogers.

**Aelodau Cyfetholedig (heb bleidlais)**

| | |
|---|---|
| Mrs Helen Roberts | Prifysgol Bangor |
| Y Parchedig Elwyn Jones | Cyngor yr Ysgolion Sul |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Mr Richard Parry Jones | Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Hamdden |
| Mr Gareth Jones | Swyddog Addysg a chlerc CYSAG Môn |
| Miss Bethan James | Ymgynghorydd Dyniaethau CYNNAL |
| Mrs Leusa Jones | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Miss Debbie Humphreys | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Nia Wyn Jones | Athrawes ymgynghorol AG CYNNAL |
| Mrs Ann Holmes | Swyddog Pwyllgor |

## 3.3 Cyfarfodydd CYSAG 2011-12

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ar gael ymlaen llaw trwy gysylltu â Chlerc CYSAG. Yn ystod 2012 – 2013, cyfarfu CYSAG Ynys Môn ar dri achlysur:

9 Hydref 2012
13 Mawrth 2013
28 Mehefin 2013

Trafodwyd y materion canlynol ac ymhelaethir ar rai ohonynt yng nghorff yr adroddiad hwn:

**a) Cyfarfod 9 Hydref 2012**

- Adroddiad blynyddol (drafft) CYSAG Ynys Môn 2011/2012
- Pa mor dda yw safonau addysg grefyddol?
- Canfyddiadau Adroddiad Prif Gymedrolwr Asesiadau Athrawon CA3 CBAC
- * Hunan arfarniadau ysgolion: Corn Hir, Llanfachraeth, Llanddona, Rhosybol
- * Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno adroddiad llafar o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghyffordd Llandudno, Conwy ar 26 Mehefin 2012.
- * Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ymgynghorol

**b) Cyfarfod 13 Mawrth 2013**

- Safonau Addysg Grefyddol: adroddiad gan y swyddog addysg
- Cefnogaeth gan y Gwasanaeth Ymgynghorol
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd ym Merthyr Tudful ym mis Tachwedd 2012.
- Adroddiad 'CYSAGau a'r Gymuned Leol' (Cymdeithas CYSAGau Cymru)
- Adroddiad Blynyddol CYSAG Ynys Môn (terfynol) 2010/11

**c) Cyfarfod 28 Mehefin 2013**

- Cefnogaeth y gwasanaeth ymgynghorol
- Sut gall CYSAG gyflwyno ei ddyletswyddau yn y dyfodol?
- Cymdeithas CYSAGau Cymru - cyflwyno papurau o'r cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghasnewydd ar 22 Mawrth 2012.
- Adolygiad o'r Maes Llafur Cytun
- Gohebiaeth

**3.3.1** Mae CYSAG Ynys Môn wedi ymaelodi â Chymdeithas CYSAGau Cymru ac y mae ei haelodau yn mynychu cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn rheolaidd.

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y cynrychiolwyr canlynol:

- Mr Eurfryn Davies (cadeirydd CYSAG Ynys Môn)
- Rheinallt Thomas (aelod o bwyllgor gwaith CYSAGau Cymru)

Mynychwyd cyfarfodydd Cymdeithas CYSAGau Cymru yn ystod y flwyddyn gan y sylwebyddion canlynol:

- Miss Bethan James – Ymgynghorydd Dyniaethau

**3.3.2** Darperir cynhaliaeth broffesiynol i GYSAG fel a ganlyn:

Mr Richard Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol (Addysg a Hamdden)
Mr Gareth Jones , Swyddog Addysg sy'n gweithredu fel Clerc CYSAG
Miss Bethan James, Ymgynghorydd y Dyniaethau, sy'n gwasanaethu Gwynedd a Môn fel aelod o'r Cwmni Ymgynghorol, CYNNAL
Mrs Leusa Jones, Miss Debbie Humphreys, Mrs Nia Wyn Jones: athrawon ymgynghorol Addysg Grefyddol ran amser.
Mrs Ann Holmes, Swyddog Pwyllgor sy'n cofnodi ac yn gweinyddu CYSAG ar ran Cyngor Ynys Môn

Dylid cyfeirio ymholiadau at Glerc CYSAG, Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni. LL77 7EY

**3.3.3 Rhestr o'r sefydliadau a dderbyniodd gopi o adroddiad CYSAG**

Dosberthir copi electronaidd o'r adroddiad blynyddol i'r canlynol:

- Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru
- Rheolwr Gyfarwyddwr y Cyngor
- Arweinydd y Cyngor
- Gwefan Ysgolion Ynys Môn
- Cymdeithas CYSAGau Cymru

**Darperir copi papur i:**

- Aelodau CYSAG Môn

## 3.4 Templed CYSAG Ynys Môn ar gyfer hunan arfarniad ysgolion o safonau addysg grefyddol

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred **CYSAG Ynys Môn** y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae **CYSAG Ynys Môn** wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae **CYSAG Ynys Môn** felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod **CYSAG Ynys Môn** ar 14 Chwefror 2011 penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Ynys Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

| | |
|---|---|
| **Manylion cyswllt:** | |
| **Enw (Clerc CYSAG):** | **Mr Gareth Jones** |
| **Cyfeiriad:** | Adran Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni |

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:**

| **Addysg Grefyddol** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
| • Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad. | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1, Maes Llafur Cytûn Lleol, Addysg Grefyddol, Addysg Grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (2011)**,** Proffiliau Enghreifftiol Dysgwyr yng NghA 2 a 3 mewn Addysg Grefyddol: Canllawiau Ychwanegol (2011)**,** Addysg Grefyddol: Canllawiau i ddysgwyr 14-19 oed(2009)**,** Pobl, Cwestiynau a Chredoau: Addysg Grefyddol yn y Cyfnod Sylfaen (2013), Addysg Grefyddol: Adroddiad y Prif Safonwr CBAC. | | | | | | | |
| **Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| • Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.<br>• Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.<br>• Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.<br>• Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol). | | | | | | | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol | | | | | | | |
| **Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| **Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | | | | | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | | | | | **Ydy** | **Nac ydy** | |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94), Canllawiau ynglŷn ag Addoli ar y Cyd (Cymdeithas CYSAGau Cymru, Mehefin 2013). | | | | | | | |
| **Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd** | | | | | | | |
| **Rhagorol** | | **Da** | | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

Llofnod: (Pennaeth)
Dyddiad:

## 3.6 Canllawiau ar gyfer dadansoddi tablau data arholiadau allanol

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs llawn) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU llawn mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Dyma'r ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill A* neu A mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % L2<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 2 yn cyfateb i raddau A* i C mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i C mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| %L1<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cymhwyster Lefel 1 yn cyfateb i raddau A* i G mewn cyrsiau TGAU. Mae'r data yma felly yn dangos y ganran (%) o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi ennill gradd A* i G mewn Astudiaethau Crefyddol eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* felly yn gyfwerth a 58 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 40 phwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (▯) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn a'r genethod mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. Mae'r symbol Σ yn cynrychioli'r cyfanswm o'r ymgeiswyr |

**Beth mae'r tabl TGAU (cwrs byr) yn dangos?**

| | |
|---|---|
| Nifer yn sefyll<br>B G Σ | Dyma'r nifer o fechgyn (B) a genethod (G) sydd wedi dewis dilyn cwrs TGAU byr mewn Astudiaethau Crefyddol ac wedi sefyll yr arholiad eleni. Mae'r symbol Σ yn dangos cyfanswm o'r ymgeiswyr. |
| % Rhagoriaeth<br>B G Σ | Mae'r amrediad o achrediadau sydd ar gael i ddisgyblion yn golygu bod angen ffordd o gymharu safonau'r cymhwyster. Mae cyrsiau byr yn cyfrannu 10% o bwyntiau i'r trothwy Lefel 1 a Lefel 2. 29 pwynt yw gwerth A* mewn cwrs byr. |
| % L2<br>B G Σ | |
| % L1<br>B G Σ | |
| Sgôr cyfartalog y pwnc<br>B G Σ | Mae pob gradd yn gyfwerth â 6 phwynt. Mae gradd A* (cwrs byr) felly yn gyfwerth a 29 pwynt a gradd C yn gyfwerth â 11 pwynt. Mae cyfanswm pwyntiau'r disgyblion yn cael ei rannu (÷) gan y nifer o ddisgyblion sydd wedi sefyll y pwnc yn yr ysgol. Mae'r data yma felly yn dangos sgôr cyfartalog y bechgyn, genethod a chyfanswm y grŵp dysgu mewn Astudiaethau Crefyddol yn yr ysgol ac yn y sir. |

This page is intentionally left blank

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Jane Marr**

**Cyfeiriad: Adran Dysgu Gydol Oes, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol: Gymuned Y Fali**

| **Addysg Grefyddol** |
|---|

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**

Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o bwysigrwydd addoli, mannau addoli ac arteffactau crefyddol. Maent yn gwybod am ac yn gallu trafod prif wyliau crefyddol Cristnogol ee Pasg a'r Nadolig ac erbyn CA2,mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwybod am wyliau megis y Pesach ac arferion megis trefn gweddio y Mwslim.

Rhoddir cyfle i'r holl ddisgyblion gyfrannu yn llafar i drafodaethau ar gwestiynau moesol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn hyderus wrth drafod materion moesol a diwylliannol.

Mae sesiynau amser Cylch yn rhan annatod o waith pob dosbarth o'r derbyn i bl 6. Mae'r plant yn ymateb yn dda.

Mae'r plant yn defnyddio TGCh ar gyfer canfod gwybodaeth yn hyderus.

**Materion i gael sylw**

Rhoi mwy o sylw i'r cwestiynau mawr.

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**

Cynllunir yn briodol ar sail 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r
maes llafur cytûn yng Nghyfnod allweddol 2.

Yn y Cyfnod Sylfaen, datblyga'r disgyblion ddealltwriaeth o bwysigrwydd y gymuned a'r bobl sydd yn helpu o fewn y gymuned wrth astudio themâu fel Pobl sy'n ein helpu, anifeiliaid

| |
|---|
| ayyb.<br>Datblygir maes 'Datblygiad Personol a Chymdeithasol' yn y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda, yn gwrtais ac yn barchus tuag at oedolion a'i gilydd.<br>Yng nghyfnod allweddol 2, mae disgyblion yn parhau i ymestyn eu gwybodaeth o Gristnogaeth, Iddewiaeth ac Islam wrth iddynt gymharu rhai o'u credoau a'r arferion Gwneir defnydd da o destunau, pobl, cymunedau ac arteffactau crefyddol, fel rhan o adnoddau ar gyfer addysgu'r pwnc.<br>Mae'r staff yn rhoi cyngor ac arweiniad i rieni a phlant mewn sawl maes. Mae pwyslais mawr yn cael ei roi ar hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a meddyliol y disgyblion. Bydd hyn yn cael ei wneud drwy wasnaethau, gwersi ABCh,ac amser cylch. Mae gwasanaeth yn cael ei gynnal fel ysgol gyfan dair gwaith yr wythnos ac yn y dosbarthiadau unigol ddwy waith yr wythnos.<br>Mae cydlynydd maes newydd wedi ei phenodi.<br>Ni fu unrhyw achos o ymateb hiliol. Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol trwy weithgareddau a themâu amrywiol ee Dyddiadur Kabo. |
| **Materion i gael sylw**<br>• Angen edrych ar y cynlluniau gwaith gan sicrhau dilyniant. Rhoi sylw pellach i ddatblygu llythrennedd drwy Addysg Grefyddol.<br>• Arsylwi gwersi fel rhan o waith hunan arfarnu yr ysgol. |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagorol** | | **Da** | x | **Digonol** | | **Anfoddhaol** | |

| |
|---|
| **Addoli ar y Cyd** |

| | | |
|---|---|---|
| **Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd?** | | |
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |
| **Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' | | |

(ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Mae holl ddisgyblion yr ysgol yn cymryd rhan mewn sesiynau addoli ar y cyd . Bydd hyn yn digwydd 3 gwaith yr wythnos fel ysgol gyfan a dwywaith yr wythnos fel dosbarthiadau unigol.

Mae cysylltiad agos iawn rhwng yr ysgol a'r eglwys leol. Bydd y Ficer yn arwain un gwasanaeth y mis.

Bydd y plant yn cael mynd i'r egwys i gynnal gwasanaeth Diolchgarwch a gwasanaeth Cristingl. Bydd y rhieni yn cael gwahoddiad i'r gwasanaethau yma.

Mae'r holl blant yn deall pwysigrwydd addoli i Gristnogion ac maent yn hyderus wrth drafod trefn gwasanaeth ac arteffactau.

Mae'r gwasanaethau yn adlewyrchu ethos Cristnogol yr ysgol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithsol a diwylliannol yn dda. Mae hon yn ysgol hapus ble mae cyfeillgarwch yn amlwg. Mae'r plant yn cyfrannu'n effeithiol i'n gwasanaethau trwy drefnu cyfraniadau ymlaen llaw a thrwy rannu teimladau ar y pryd.

Drwy ein gwasanaethau a'r amseroedd cylch, mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar eu bywydau eu hunain a phobl eraill; ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd; myfyrio ar eu credoau neu'u gwerthoedd eu hunain.

Cynhelir sesiynau Amser Cylch effeithiol ym mhob dosbarth.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo gwerthoedd megis gonestrwydd, goddefgarwch a thegwch yn dda.

Mae'r ysgol hefyd yn hyrwyddo datblygiad synnwyr o gyfrifoldeb yn dda, wrth i'r disgyblion ymwneud a'i gilydd, wrth ymwneud a'u tasgau dosbarth ac wrth gymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

Cynllunio yn fwy strwythredig ar gyfer gwasanaethau. Datblygu themâu penodol.

| Rhagorol | | Da | x | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: Jeannie Evans (Pennaeth)

Dydddiad: 03/12/13

**Rhesymeg**

Rheolir Addysg Grefyddol yn lleol gan Gyngor Ymgynghorol Sefydlog ar gyfer Addysg Grefyddol (CYSAG). Mae'n cynnwys tri phwyllgor: cynrychiolwyr prif draddodiadau crefyddol yr ardal, cynrychiolwyr athrawon a chynrychiolwyr yr awdurdod lleol. Prif swyddogaeth CYSAG yw, 'cynghori'r awdurdod ar y cyfryw faterion sy'n gysylltiedig ag addoli crefyddol mewn ysgolion sirol ac â'r addysg grefyddol sydd i'w rhoi yn unol â maes llafur cytûn ag y bydd yr awdurdod yn eu cyfeirio at y cyngor neu ag y gwêl y cyngor yn dda'. (Deddf Diwygio Addysg 1988 a.11(1)(a)

Cred CYSAG Môn y dylai'r cyngor hwn fod yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol gan obeithio y bydd y canllawiau sy'n dilyn yn galluogi penaethiaid i gefnogi CYSAG yn ei dyletswyddau.

Yn y gorffennol, mae CYSAG Môn wedi monitro addysg grefyddol ac addoli ar y cyd trwy:

- adolygu adroddiadau arolygu ESTYN;
- dadansoddi asesiadau athrawon a chanlyniadau arholiadau ysgolion uwchradd yr Awdurdod Lleol;
- cael adroddiadau rheolaidd gan gynrychiolwyr y gwasanaeth ysgolion/ymgynghorol lleol;
- gwahodd athrawon a phenaethiaid i rannu enghreifftiau o arferion da gydag aelodau CYSAG.

Ni fydd Fframwaith Arolygu newydd ESTYN bellach yn cyfeirio'n benodol at Addysg Grefyddol ac addoli ar y cyd. Mae CYSAG Môn felly yn awyddus i fanteisio ar y cyfundrefnau a'r arferion a ddefnyddir ar hyn o bryd gan benaethiaid ac athrawon wrth iddynt baratoi at y Fframwaith Arolygu newydd. Yng nghyfarfod CYSAG Môn ar Chwefror 14eg 2011, penderfynwyd y byddai CYSAG yn cyflawni ei chyfrifoldebau statudol trwy wahodd ysgolion i rannu eu hunan arfarniad o Addysg Grefyddol, addoli ar y cyd a datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion gyda'r aelodau.

Gofynnir yn garedig i ysgolion cynradd ac uwchradd gyflwyno crynodeb o hunan arfarniad yr ysgol i sylw clerc CYSAG Môn yn ystod y flwyddyn pan fydd ESTYN yn arolygu'r ysgol.

**Manylion cyswllt:**

**Enw (Clerc CYSAG): Jane Marr**

**Cyfeiriad: Addysg a Hamdden, Ffordd Glanhwfa, Llangefni.**

Ers 2008, mae CYSAGau ar draws Cymru wedi mabwysiadu neu addasu'r Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Addysg Grefyddol (APADGOS, 2008) fel eu maes llafur cytûn lleol. Mae aelodau'r Panel Ymgynghorol Cenedlaethol Addysg Grefyddol wedi croesawu'r cysondeb hwn ar draws Cymru gan eu bod wedi gallu cydweithio i baratoi canllawiau cyffredin i ysgolion a ChYSAGau. Mae amryw o GYSAGau yng Nghymru wedi mabwysiadu cyfundrefn neu broses debyg i'r un a amlinellir yn y ddogfen hon.

**Enw'r Ysgol:Pentraeth**

**Addysg Grefyddol**

## Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau mewn Addysg Grefyddol?

- Seilir yr hunan arfarniad ar arsylwadau gwersi, arfarniadau o waith disgyblion a chyfweliadau â disgyblion.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol) a chynnwys arfarniad o asesiadau athrawon ac/neu ganlyniadau arholiad.

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 1 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Safonau mewn Addysg Grefyddol – cynnydd mewn dysgu**
**CS**
Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o wyliau crefyddol Cristnogion yn y CS sef Diolchgarwch, Y Nadolig a'r Pasg. Maen't yn gallu trafod y Beibl ,Y Llyfr Sanctaidd, ac yn gallu adrodd straeon o'r Beibl. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu trafod y gwyliau yma mewn peth manylder. Gall y rhan fwyaf gyfrannu yn llafar i drafodaethau ar cwestiynau moesol e.e. Beth sy'n gwneud ffrind da ,Pam bod hi'n bwysig dweud y gwir a.y.b. Mae sesiynau amser cylch yn digwydd yn ddyddiol ac mae'r plant yn ymateb yn dda gyda nifer fechan yn ymateb yn dda iawn. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o fannau addoli megis Y Capel a'r Eglwys yn ogystal ag arteffactau crefyddol cristnogion ac Iddewon.
**CA2**
Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o fannau addoli,arteffactau a symbolau crefyddol Cristnogion, Iddewon ac Hindwiaid. Maen't yn cyfrannu yn dda i gwestiynau mawr megis:
Byd pwy ydy hwn?/Beth sy'n ein gwneud yn ddynol?/A oes Heddwch?/A ydy awdurdod yn creu rhyddid / A oes rhaid Marw? a Beth sy'n Real? Mae'r mwyafrif yn hyderus wrth drafod materion moesol a diwylliannol ac mae nifer fychan yn hyderus iawn ac yn ymateb yn dda iawn.

**Materion i gael sylw**
Gwneud mwy o ddefnydd o amser Cylch yn CA2

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth mewn Addysg Grefyddol?

- Dylai hunan arfarniad ystyried y dangosyddion canlynol: yr amser a roddir i'r pwnc, gwybodaeth bynciol, arbenigedd a datblygiad proffesiynol yr athrawon, addasrwydd y rhaglen astudio ac amrediad yr adnoddau dysgu a ddefnyddir.
- Mae arfarniad o arsylwadau gwersi a gwaith disgyblion yn caniatáu i benaethiaid a phenaethiaid adran i ddod i farn am ansawdd yr addysgu mewn gwersi Addysg Grefyddol o fewn yr ysgol, a'r graddau y mae disgyblion yn cael eu cymell a'u hannog i gyrraedd safonau uchel.
- Dylai ysgolion cynradd gyfeirio at y ddarpariaeth 'Pobl, Credoau a Chwestiynau' ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen yn ogystal ag Addysg Grefyddol yn CA2.
- Dylai ysgolion uwchradd gyfeirio at CA3, CA4 a CA5 (Astudiaethau Crefyddol ac Addysg Grefyddol).

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adrannau 2.1 ac 2.2 a'r Maes Llafur Cytûn Lleol

**Yr addysgu: cynllunio ac amrediad o strategaethau**
Mae gan y cydlynydd ddealltwriaeth dda o'r maes ac mae'r cynllunio yn cydymffurfio ar sail Pobol, Credoau a chwestiynau ar gyfer dysgwyr y Cyfnod Sylfaen a'r maes llafur cytûn yng Nghyfnod Allweddol 2. Buddsoddwyd mewn llyfrau ac adnoddau e.e Cwestiynau Pwysig Mewn Crefydd.
Yn y CS
Yn CA2 mae'r disgyblion yn parahau i ddatblygu eu gwybodaeth o Gristnogaeth ,Iddewiaeth a Hindwiaeth wrth iddynt gymharu rhai o'u arferion a credoau. Wrth ailgynllunio yn thematig maer ysgol bellach yn dewis rhai themâu sy'n cael eu arwain gan un o gwestiynau mawr e.e. A oes Heddwch . Gwneir defnydd da o gwestiynau mawr er mwyn addysgu'r pwnc yn llwyddiannu. Mae ABACH , Addysg Grefyddol A Dinasyddiaeth Byd Eang wedi eu plethu yn dynn drwy'r ysgol ac rhoddir sylw haeeddianol i ddatblygiad personol a chymdeithasol disgyblion yn ogystal a datblygiad ysbrydol a moesl drwy addysgu y tri maes . Gwneir defnydd o amser cylch,prosiectau teulu,Ffrindiau'n Gyntaf/Clwb Pyramid i ddatblygu disgyblion gyda'r sygol bellach yngobeithio ennill Cam 6 ysgolion iach eleni.
Hyrwyddir parch at wahaniaeth a chydraddoldeb hiliol drwy'r maesydd uchod. Y cydylynydd sydd hefyd yn gyfrifol am hyrwyddo ABACH ac mae wedi derbyn hyfforddiant sylweddol dros y blynyddoedd.

**Materion i gael sylw**
Arsylwi gwasanaethau boreol yn ffurfiol

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

## Addoli ar y Cyd

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth ar gyfer addoli ar y cyd? | | |
|---|---|---|
| **Ydy'r addoli ar y cyd yn cydymffurfio â'r gofynion statudol?** | **Ydy** | **Nac ydy** |

**Cyfeiriadau:** Fframwaith Arolygu ESTYN Adran 2.3.1, 'Arweiniad atodol ar arolygu Addoli ar y Cyd mewn ysgolion anenwadol' (ESTYN, Medi 2010) , 'Addysg Grefyddol ac Addoli ar y Cyd' (Cylchlythyr y Swyddfa Gymreig 10/94)

**Nodweddion da mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**
Mae sesiynau addoli ar y cyd yn digwydd 5 gwaith yr wythnos. Dwywaith fel ysgol gyfan dwywaith fel adran ac unwaith fel dosbarth unigol. Gwneir defnydd helaeth o'r safwe beibl.net sy'n paratoi gwasanaethau ysbrydol ar gyfer y sector Gynradd a Uwchradd. Mae naws ysbrydol i'r gwasanaethau yn rheolaidd. Mae bron iawn pob un yn deall pwysicrwydd addoli ar y cyd ac yn trin y neuadd fel tŷ Duw yn ystod gwasanaethau. Goleuir cannwyll i ddynodi cychwyn a diwedd y gwasanaeth ac mae symbolau crefyddol yn cael eu harddangos yn amlwg yn ystod gwasanaethau. Mae'r gwasanaethau yn adlewyrchu ethos Cristnogol yr ysgol.
Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol ,moesol a diwylliannol yn dda, rydym yn hyrwyddo gwerthoedd megis goddefgarwch, gonestrwydd a thegwch yn dda iawn ac mae'r disgyblion yn cael cyfleoedd i fyfyrio ar fywydau eu hunain ac eraill yn rheolaidd. Drwy'r Cyngor ysgol a thrwy rhoi sylw i llais y plentyn mae disgyblion yn gwybod bod cyfrifoldeb yn dod law yn llaw â hawliau.

**Materion i gael sylw mewn perthynas ag ansawdd yr Addoli ar y Cyd**

| Rhagorol | | Da | X | Digonol | | Anfoddhaol | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|

Llofnod: *Lynne Jones* (Pennaeth)

Dyddiad: 13/2/13

**Adroddiad y Swyddog Addysg Chwefror 2014 February Education Officer's Report.**

**3. Materion yn codi / Matters arising.**

- Ysgolion Fali a Phentraeth wedi cael eu hatgoffa o'r angen I gyflwyno adroddiad hunan arfarnu / *Fali and pentraeth schools have been reminded of the need to provide a self evaluation report.*

**5. Safonau Addysg Grefyddol / Standards in Religious Education**

**Adroddiadau Estyn Reports**

**Hydref 2013 Autumn.**

**Ysgol Ffrwd Win.**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau ysgogol i'w disgyblion, sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol, ynghyd ag anghenion holl ddisgyblion yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu amryw o gyfleoedd eithriadol o dda i hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion. Mae bron pob disgybl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd. Maent yn deall pwysigrwydd gwerthoedd fel gonestrwydd a pharch er mwyn gweithio'n llwyddiannus fel cymuned.

The school provides pupils with a wide range of stimulating experiences, which respond fully to the requirements of the Foundation Phase, the National Curriculum and religious education, in addition to the needs of all pupils at the school.

The school provides a variety of exceptionally good opportunities to promote pupils' spiritual, moral, social and cultural development. Nearly all pupils take responsibility for their actions. They understand the importance of values such as honesty and respect in order to work successfully as a community.

**Ysgol Caergeiliog**

Mae ethos teuluol a chynhwysol yr ysgol yn nodwedd gref sy'n meithrin agweddau cyfrifol yn llwyddiannus ar draws cymuned ddysgu fywiog.

Caiff datblygiad personol, ysbrydol, moesol a diwylliannol disgyblion ei gydlynu'n dda ac mae wedi'i wreiddio'n ddwfn yn y cwricwlwm ac yng ngweithgareddau dyddiol yr ysgol.

The school's inclusive family ethos is a strong feature that successfully nurtures responsible attitudes throughout a vibrant learning community.

Pupils' personal, spiritual, moral, and cultural development is co-ordinated well and is rooted deeply in the curriculum and in the school's daily activities.

**Ysgol Santes Fair.**

Ar draws yr ysgol, mae lles ysbrydol a moesol disgyblion wedi'i ddatblygu'n dda.

Mae addoli bob dydd yn hybu datganiad cenhadaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Mae cysylltiadau lleol cryf gyda'r eglwys a'r gymuned ehangach yn helpu i ategu datblygiad ysbrydol, moesol ac emosiynol disgyblion yn effeithiol, er enghraifft trwy rannu gwasanaethau eglwys gyda'r plwyf lleol.

Mae'r arddangosiadau ar draws yr ysgol yn rhai deniadol. Maent yn hyrwyddo ac yn dathlu dysgu a chyflawniadau disgyblion, a'r ethos Catholig, yn llwyddiannus.

Mae gan yr ysgol weledigaeth glir i greu amgylchedd lle y mae hunan-barch pob plentyn yn cynyddu trwy werthoedd Cristnogol.

Across the school, pupils' spiritual and moral wellbeing is well developed.

Daily acts of worship promote the school's mission statement successfully. Strong local links with the church and with the wider community help support pupils' spiritual, moral and emotional development effectively, for example through shared church services with the local parish.

Displays throughout the school are attractive. They promote and celebrate pupils' learning and achievements, and the Catholic ethos successfully.

The school has a clear vision to create an environment where every child grows in self-esteem through Christian values.

8. Gohebiaeth / *Corresponsdence.*

**a. Y Parch Robert Townsend**

Annwyl Gyfeillion,

I'r rhai ohonoch nad ydynt yn fy adnabod, fy enw i yw'r Parchedig Robert Townsend.

Rwyf yn Gyfarwyddwr Addysg (Statudol) Esgobaethol ar gyfer Esgobaeth Bangor yn yr Eglwys yng Nghymru, sy'n cynnwys y rhan fwyaf o Wynedd, Ynys Môn, Conwy (i'r gorllewin o'r afon) a gogledd-orllewin Powys (Machynlleth, Caersws, a Llanidloes).

Ers sawl blwyddyn bellach, dymunai Esgobaeth Bangor gynnig adnodd newydd a chyfoes a fyddai'n ychwanegu at y rhestr o ganeuon ar gyfer cyd-addoli yn eich ysgol.

Dros y 18 mis diwethaf mae wedi bod yn bleser i weithio gyda grŵp o Gristnogion ar draws Gogledd Cymru sydd nid yn unig yn gyfansoddwyr a cherddorion profiadol, ond hefyd yn bobl sydd â llawer o brofiad o weithio gyda phlant a phobl ifanc mewn ysgolion. Mae'r grŵp yn gynnwys Andy Hughes (Saint y Gymuned), Greg Leavers a Chris Dean.

Mae ffrwyth eu llafur, sef llyfr caneuon o'r enw **O Dduw, ein Tad**, yn cael ei argraffu a'i baratoi ar hyn o bryd. Mae'n cynnwys

- 61 o ganeuon gwreiddiol (roedd gennym 60, ond yna cafodd rhywun syniad ychwanegol …. !)
  - 31 y gellir eu canu yn ddwyieithog
  - 11 y gellir eu canu yn Gymraeg yn unig
  - 19 y gellir eu canu yn Saesneg yn unig
- Traciau cefndirol ar gyfer pob cân ar CD
- Sleidiau PowerPoint ar gyfer yr holl ganeuon, yn y ddwy iaith ar CD

Diolch i haelioni dyn busnes Cristnogol, bydd holl ysgolion cynradd 6 sir y Gogledd yn derbyn un copi o'r llyfr fel rhodd, yn rhad ac am ddim, a bydd Esgobaeth Bangor yn rhoi copi i'r ysgolion cynradd yng ngogledd-orllewin Powys.

Byddai'r grŵp sydd wedi llunio'r llyfr caneuon hefyd yn hoffi gwahodd

- chi fel Pennaeth
- unrhyw un sy'n ymwneud â cherddoriaeth neu gyd-addoli yn eich ysgol

i **Sesiwn Blasu**, lle bydd y cerddorion yn cyflwyno'r llyfr, ac yn eich helpu i ddod i adnabod ambell un o'r caneuon.

**Cynhelir y Sesiynau Blasu o 4.30 - 5.30yp ar y dyddiau canlynol (paned a chacen o 4yp) :**

- **Dydd Mercher 5 Chwefror, Ystafell Archesgob Gwilym, Eglwys S Catherine, Cricieth, LL52 0AH**
- **Dydd Llun 10 Chwefror, Ysgol Gynradd Machynlleth, SY20 8HE**
- **Dydd Mercher 12 Chwefror, Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, Caergybi, LL65 1LD**
- **Dydd Mawrth 18 Chwefror, Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2NN**

Nid oes tâl am y sesiynau hyn, ond byddwn yn ddiolchgar pe gallech adael i mi wybod os ydych yn bwriadu dod, fel bod gennym syniad bras o rifau. Rhowch wybod i mi drwy ebost ar robert@townsend.es os gwelwch yn dda.

Gobeithiaf a gweddïaf bydd y llyfr caneuon hwn yn adnodd defnyddiol ar gyfer cyd-addoli yn eich ysgol.
Er gwybodaeth, danfonir yr ebost hwn at eich ficer lleol!
Peidiwch ag oedi i gysylltu â mi os ydych angen unrhyw wybodaeth bellach.
Gyda'm gweddïau a dymuniadau gorau ,
Robert Townsend

Dear Friends,

For those of you who do not know me, my name is the Rev'd Robert Townsend.
I am the Diocesan Director of (Statutory) Education for the Church in Wales' Diocese of Bangor, which covers most of Gwynedd, Anglesey, Conwy (west of the river) and northwest Powys (Machynlleth, Caersws, and Llanidloes).
For a number of years now, the Diocese of Bangor has wanted to offer a new, contemporary resource that would enhance the repertoire of songs for collective worship in your school.
Over the past 18 months it has been my pleasure to work with a group of Christian people from across North Wales who are not only experienced and accomplished composers and musicians, but also people who have much experience in working with children and young people in schools. The group includes Andy Hughes (Urban Saints), Greg Leavers and Chris Dean.
The fruits of their labour - a songbook entitled **Our Father God** - is currently being printed and prepared. It includes

- 61 original songs (we had 60, but then someone had another idea .... !)
    - 31 can be sung in both languages
    - 11 can be sung in Welsh alone
    - 19 can be sung in English alone
- Backing tracks for all of the songs on CD
- Powerpoint Slides for all of the songs, in both languages on CD

Thanks to the generosity of a Christian businessman, all the primary schools in the 6 counties of North Wales will be receiving a complimentary copy of the songbook, and the Diocese of Bangor will be giving a copy to the primary schools in northwest Powys.

The group which has compiled the songbook would also like to invite

- you
- anyone involved with music or collective worship in your school

to a **Taster Session**, where the musicians will introduce you to the book, and help you get to know some of the songs.
**These Taster Sessions are being held from 4.30 - 5.30pm on the following days (tea and cake from 4pm):**

- **Wednesday 5th February, Archbishop Gwilym Room, St. Catherine's Church, Cricieth, LL52 0AH**
- **Monday 10th February, Ysgol Gynradd Machynlleth, SY20 8HE**
- **Wednesday 12th February, Ysgol y Parchedig Thomas Ellis, Holyhead, LL65 1LD**
- **Tuesday 18th February, Ysgol y Faenol, Penrhosgarnedd, Bangor, LL57 2NN**

There is no charge for these sessions, but I would be grateful if you could let me if you hope to come, so that we have a rough idea of numbers. Please reply to me via email robert@townsend.es
For information, this email is also being sent to your local vicar!
I do hope and pray that this songbook will be a useful resource for the collective worship in your school.
Please do not hesitate to contact me if you need any further information.
With my prayers and best wishes,

**b. Cais Rhun ap Iorwerth.**

i) Ymhellach I'ch gohebiaeth ynghylch cais Casi Jones, gweithiwr o'r Eglwys Bresbyteraidd Cymru ym Môn, i geisio cynnal rhyw fath o wasanaeth ar ôl ysgol i ddisgyblion gan Eglwysi a gwirfoddolwyr eraill oes modd iddi rhoi ei syniadau i lawr ar bapur. Gallaf wedyn ei drafod o fewn cyfarfod nesaf CYSAG, y corff sydd gyda'r cyfrifoldeb dros materion addysg grefyddol ac addoli ar y cyd ar yr ynys. Mae gennym gyfarfod ym mis Chwefror.Yr ysgolion unigol sydd gyda'r hawl i benderfynnu yn y pen draw i roi gwahoddiad neu beidio ond peth da buasai ei wyntyllu o fewn cyfarfod CYSAG.

ii) Diolch i chi am gysylltu â mi.
Fe rhoddaf wybod i Mrs Casi Jones beth yw eich bwriad fel y caiff fynd ati i nodi unrhyw syniadau sydd ganddi am y cynllun.
Mae'n debyg y bydd hi'n cysylltu'n ôl gyda chi'n o fuan.
Unwaith eto, diolch am eich cyd weithrediad a dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chi oll gan Swyddfa Rhun ap Iorwerth.

Yn gywir iawn,
**Francess Taylor**
Swyddog Gwaith Achos a Chyfathrebu / Case Work and Communications Officer
**Rhun ap Iorwerth**
Aelod Cynulliad Ynys Môn Assembly Member

c. Etholiadau Pwyllgor Gwaith / Executive Committee nominations

**Cyfarfod CCYSAGauC, Caerdydd, 10 Hydref 2013 / *Wales Association of SACREs meeting, Cardiff, 10 October 2013***

| | | |
|---|---|---|
| **Ynys Môn / *Anglesey***<br>Bethan James<br><br>**Blaenau Gwent**<br>Chris Abbas<br>Gill Vaisey<br><br>**Pen-y-bont ar Ogwr / *Bridgend***<br>Carys Pritchard<br><br>**Caerffili/ *Caerphilly***<br>Cllr Michael Gray<br>Vicky Thomas<br>Enfys Hawthorn<br><br>**Caerdydd / *Cardiff***<br>Carys Pritchard<br>Emily Hankins<br><br>**Sir Gaerfyrddin / *Carmarthenshire***<br>Aled Jones<br>Mary Parry<br>Meinir Wynne Loader<br>Helen Gibbon<br><br>**Ceredigion**<br>Alwen Roberts<br><br>**Conwy**<br>Phil Lord<br>N.C. Richter | **Sir Ddinbych / *Denbighshire***<br>Phil Lord<br>Gavin Craigen<br><br>**Sir y Fflint / *Flintshire***<br>Phil Lord<br><br>**Gwynedd**<br>Bethan James<br><br>**Merthyr Tudful / *Merthyr Tydfil***<br>Cllr Ernie Galsworth<br>Carys Pritchard<br><br>**Sir Fynwy / *Monmouthshire***<br>Gill Vaisey<br>Sue Cave<br>Sharon Perry-Phillips<br><br>**Castell-nedd Port Talbot / *Neath and Port Talbot***<br>Jen Malcolm<br><br>**Casnewydd / *Newport***<br>Huw Stephens<br>Vicky Thomas<br><br>**Sir Benfro / *Pembrokeshire***<br><br>**Powys**<br>John Mitson<br>Julie Pugh | **Rhondda Cynon Taf**<br>Carys Pritchard<br><br>**Abertawe / *Swansea***<br>Janet Neilson<br>Alison Lewis<br>Peter Llewellyn<br>Claire Fraser<br>Vicky Thomas<br><br>**Torfaen**<br>Marilyn Frazer<br>Emma Mohr<br>Vicky Thomas<br><br>**Bro Morgannwg / *Vale of Glamorgan***<br>Carys Pritchard<br><br>**Wrecsam / *Wrexham***<br>Libby Jones<br>Tania ap Siôn<br><br>**Sylwedyddion / *Observers***<br>Leslie Francis |

Draft

| Cofnodion | Minutes |
| --- | --- |
| **1. Croeso.**<br>Croesawodd y Cadeirydd, Tania ap Sion, yr aelodau i'r cyfarfod a gynhaliwyd ar ôl Cynhadledd Genedlaethol CCYSAGauC a siaradodd am y gwahaniaeth rhwng y cyfarfod hwn a chyfarfodydd eraill CCYSAGauC. Cyfeiriodd Tania ap Sion at y cyfarfod nesaf ar ddydd Iau 27 Mawrth 2014, a fydd yn dilyn y fformat arferol ac yn cynnwys cyflwyniadau. | **1. Welcome.**<br>Chair, Tania ap Sion welcomed members to the meeting which took place after the WASACRE National conference and talked about the difference in this meeting from other WASACRE meetings. Tania ap Sion directed members to the Next meeting on Thursday 27 March 2014, which will follow the usual format and will have presentations. |
| **2. Adfyfyrio tawel.**<br>Gofynnodd y Cadeirydd i'r aelodau gymryd ennyd i fyfyrio ar ddigwyddiadau'r dydd yn y gynhadledd ac i baratoi ar gyfer y cyfarfod presennol. | **2. Quiet reflection.**<br>Chair asked members to take a moment to reflect on the day's events at the conference and to prepare for the present meeting. |
| **3. Ymddiheuriadau.**<br>Helen Bevan, Ruth Frost, Ramez Delpack, Ernie Galsworthy. | **3. Apologies.**<br>Helen Bevan, Ruth Frost, Ramez Delpack, Ernie Galsworthy. |
| **4. Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd yng Nghaernarfon, 19 Mehefin 2013**<br>Yn dilyn ychwanegu'r Cyngh. Huw George at restr y bobl a oedd yn bresennol cafodd y cofnodion eu derbyn fel cofnod cywir o'r cyfarfod, gyda Carys Pritchard yn cynnig a Phil Lord yn eilio. | **4. Minutes of meeting held in Caernarfon, 19 June 2013.**<br>With the addition of Cllr Huw George to the attendees list the minutes were accepted as a true record of the meeting, proposed by Carys Pritchard and seconded by Phil Lord. |
| **5. Materion sy'n codi.**<br>Eitem 5. Cyflwyniad NAPfRE: Phil Lord REQM. Mae tair o'r pedair ysgol o'r rhaglen beilot yng Nghymru wedi cael eu hyfforddi fel aseswyr. Bwriedir cynnal rhaglen beilot Gymraeg. Rhoddwyd cyllid i gyfieithu'r holl adnoddau. Dylai ysgolion ddefnyddio'r deunyddiau 'rhad ac am ddim' i hunanasesu ac os ydynt yn dymuno cael eu hasesu'n ffurfiol byddai cost o £450.00 i bob ysgol. Eitem 7. Diweddariadau: Adolygiad Thematig Estyn. Atgoffodd Vicky Thomas yr aelodau, ers cyhoeddi'r adroddiad, bod CCYSAGauC wedi ariannu hyfforddiant Cyfnod Allweddol 3 i athrawon AG mewn lefelu gwaith disgyblion fel a nodir yn y Fframwaith Enghreifftiol Cenedlaethol ar gyfer Cyflwyno Addysg Grefyddol. Felly mae un o'r | **5. Matters arising.**<br>Item 5. NAPfRE presentation: Phil Lord REQM. Three out of the four schools from the Welsh pilot have been trained as assessors. There will be a Welsh language pilot. Funding has been given for all resources to be translated. Schools should use the 'free' materials to self-assess and if they wish to be assessed formally there would be a cost of £450.00 per school. Item 7. Up-dates: Estyn Thematic Review. Vicky Thomas reminded members that since the report was published WASACRE has funded Key Stage 3 training for RE teachers in levelling pupil work as outlined in the National Exemplar Framework for Religious Education. Therefore one of the recommendations has been addressed already. Marry Parry suggested that WASACRE could |

Draft

| | |
|---|---|
| argymhellion wedi cael ei roi ar waith yn barod. Awgrymodd Mary Parry y gallai CCYSAGauC ofyn i ysgolion pa effaith y mae'r hyfforddiant wedi'i chael ar ddysgu'r disgyblion a'u hymarfer addysgu eu hunain trwy gynnal proses adborth ffurfiol. Eitem 7. Diweddariadau: Adolygiad Llywodraeth Cymru o adroddiadau blynyddol CYSAGau. Cadarnhaodd Tania ap Sion fod yr adroddiad hwn wrthi'n cael ei gyhoeddi ac y bydd yn cael ei gylchredeg i'r CYSAGau unwaith y byddai hyn wedi cael ei wneud. | ask schools what impact the training has had on the pupil's learning and their own teaching by carrying out a formal feedback procedure. Item 7. Updates: Welsh Government review of SACRE annual reports. Tania ap Sion confirmed that this report is in the process of being published and will be circulated to SACREs when this had been done. |
| **6. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 4 Hydref 2013.**<br>Cyflwynwyd yr adroddiad i'r aelodau a thynnodd y Cadeirydd sylw'r aelodau at Eitem 8 ac Eitem 11. Eitem 8. Llywodraeth Cymru. Cadarnhaodd Tania ap Sion fod gan CCYSAGauC bellach ddolen gyswllt newydd gyda Llywodraeth Cymru, sef Ms Nia Mair Jones, a'n bod ni eisoes wedi amlygu rhai meysydd i'w trafod yn y dyfodol a'n bod yn meithrin perthynas dda iawn â Llywodraeth Cymru, fel yr oeddem wedi'i wneud yn flaenorol trwy Denize Morris, perthynas yr ydym wedi gweld ei heisiau dros y blynyddoedd diwethaf. Eitem 11. U.F.A. Amlygodd y Cadeirydd y mater yma, gan ei gysylltu â'r drafodaeth am waith CCYSAGauC i hyfforddi a rhoi cymorth i athrawon ac ysgolion. Awgrymodd Vicky Thomas y gallai Hunan Arfarnu mewn AG ac Addoli ar y Cyd fod yn angen dynodedig o ran hyfforddiant. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd y Pwyllgor Gwaith yn canolbwyntio ar hwn fel eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith. Eitem 6. Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith. Eglurodd y Cadeirydd beth oedd y sefyllfa o ran y bleidlais ar gyfer y lle sydd ar gael ar Bwyllgor Gwaith CCYSAGauC ac ymddiswyddiad Brian Rogers. Gofynnodd y Cadeirydd hefyd i'r Cyngh. Michael Gray fod yn amyneddgar wrth i ni ymdrin â'r sefyllfa hon a chadarnhaodd fod angen meddwl yn eglur am hyn ac y byddai'r Cyfansoddiad yn eitem ar yr agenda yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith ym mis Chwefror 2014. | **6. Report from the Executive Committee held on 4 Hydref 2013.**<br>The report was presented to members and the Chair drew members' attention to Item 8 and Item 11. Item 8. Welsh Government. Tania ap Sion confirmed that WASACRE now has a new link with Welsh Government, Ms Nia Mair Jones and that we have already highlighted some areas for discussion in future and that we are forging a very good relationship with Welsh Government, as we had previously done through Denize Morris, and which we have missed in recent years. Item 11. A.O.B. The Chair highlighted this issue, linking it to the discussion about WASACRE's work in training and supporting teachers and schools. Vicky Thomas suggested Self Evaluation in RE and CW could be an identified training need. The Chair confirmed that the Executive committee will focus on this as an agenda item at the next Executive meeting. Item 6. Executive committee members. The Chair explained the situation with regard to the ballot for the position available on the WASACRE Executive committee and the resignation of Brian Rogers. Chair also asked Cllr Michael Gray for his patience whilst we deal this situation and confirmed that it needed to be thought through clearly and that the Constitution would be an agenda item at the next Executive meeting in February 2014. |

Draft

| | |
|---|---|
| **7. Gohebiaeth.**<br>Nid oedd unrhyw ohebiaeth wedi dod i law<br><br>**8. U.F.A.** Dim<br><br>**9. Dyddiad y cyfarfod nesaf.**<br><br>Dydd Iau 27 Mawrth 2014 yng Nghaerffili<br><br>Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyngh. Michael Gray am wahodd CCYSAGauC i Gaerffili ar gyfer cyfarfod y gwanwyn a diolchwyd hefyd i Garmon am gyfieithu yn y cyfarfod ac am gyfieithu yn y Gynhadledd Genedlaethol. Diolchodd y Cyngh. Michael Gray i CCYSAGauC am y gynhadledd a diolchodd y Cadeirydd i Carys Pritchard a staff Consortiwm Canolbarth y De am eu cymorth i drefnu'r digwyddiad.<br><br>Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd dyddiadau ar gyfer cyfarfodydd CCYSAGauC a chyfarfodydd y Pwyllgor Gwaith yn cael eu rhannu yn y CCB ym mis Mehefin 2014 ar gyfer blwyddyn ymlaen llaw. | **7. Correspondence.**<br>No correspondence received<br><br>**8. A.O.B.** None<br><br>**9. Date of next meeting.**<br><br>Thursday 27 March 2014 in Caerphilly.<br><br>The Chair thanked Cllr Michael Gray for inviting WASACRE to Caerphilly for the spring meeting and thanks were also given to Garmon for the translation of the meeting and for the translation of the National conference. Cllr Michael Gray thanked WASACRE for the conference and the Chair thanked Carys Pritchard and the staff at Central South East Consortium for their assistance in organising the event.<br><br>The Chair confirmed that dates for WASACRE meetings and Executive meetings will be shared at the AGM in June 2014 for a year in advance. |

Draft

*Cadeirydd/*Chairman:
Dr Tania ap Sion

*Ysgrifennydd*/Secretary:
Libby Jones
4 Patten Close
Hawarden
Deeside
CH5 3TH
*e-bost*/e-mail: libby.jones@wrexham.gov.uk
*ffôn/ tel :* 01978 317614

5 Chwefror 2014

Annwyl Glerc CYSAG,

Gan ddilyn ein proses flynyddol arferol, rwy’n ysgrifennu i wahodd CYSAGau i enwebu aelodau newydd o Bwyllgor Gwaith CCYSAGAUC. A fyddai eich CYSAG cystal â thrafod unrhyw enwebiadau y mae’n dymuno’u cynnig yng nghyfarfod y CYSAG yn ystod tymor y gwanwyn os gwelwch yn dda. Sylwer, os yw eich CYSAG eisoes yn cael ei gynrychioli ar y Pwyllgor Gwaith, yn ôl cyfansoddiad CCYSAGAUC ni fyddwch yn gallu enwebu rhywun o’ch CYSAG chi eich hun ar yr adeg hon.

Amgaeaf brofforma y dylid ei gwblhau a’i ddychwelyd ataf yn y cyfeiriad e-bost/post uchod erbyn **Dydd Gwener 28 Mawrth 2014**. Erbyn diwedd Ebrill 2014, byddaf yn anfon y rhestr o enwebiadau atoch, fel bod eich CYSAG yn gallu eu trafod yn ei gyfarfod yn ystod tymor yr haf mewn pryd ar gyfer y bleidlais yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gymdeithas ym mis Mehefin.

Hoffem ddiolch i chi a’ch aelodau am eich cymorth gyda’r mater yma.

Yn gywir,

Libby Jones
**Ysgrifennydd CCYSAGAUC**

**Enwebiadau ar gyfer Pwyllgor Gwaith CCYSAGC/**
***Nominations to WASACRE Executive Committee***

**2014**

**ENW CYSAG / SACRE NAME:**

| **Enwebiad / Nomination** | **Enw / Name** | **Cyfeiriad e-bost/ E-mail address** |
|---|---|---|
| Pwyllgor gwaith 1/ Executive Committee 1 | | |